

ECO'R WYDDFA

Rhif 64

TACHWEDD 1981

Pris 15c

CERDDED AR WYNEB Y DYFROEDD



Mae golygfeydd fel y rhai a welir yn y lluniau yn ddigon cyfarwydd i drigolion Penisarwaun a'r cylch ar ôl cyfnod o law trwm. Mae'r llwybrau troed sydd yn croesi'n igam ogam ar draws y gors rhwng y pentref a'r Waun o dan chwe modfedd o ddŵr yn aml iawn. Gan fod nifer o bobl mewn oed, a phlant yn defnyddio'r llwybrau hyn i fynd yn ôl ac ymlaen i'r siop, y capel a'r cae chwarae ym Mhenisarwaun mae'r peryglon yn amlwg i bawb. Mewn rhai llefydd 'does dim ond rhaid camu rhyw lathen oddi ar y llwybr i suddo droedfeddi i'r gors. Y broblem yw'r Afon Cegin, sydd yn llifo trwy ganol y gors. Mae ei tharddiad yng nghanol y gors, ac o'r fan honno mae'r afon yn llifo heibio i Gae Hob a Groslon Tŷ Mawr i lawr i gyfeiriad Bangor, a'r môr. Mae sianel yr afon wedi'i llenwi â mwd a thyfiant o bob math ac ar ôl glaw mae'r dŵr yn codi ar draws y llwybrau. Mae'r ffordd o ddatrys y broblem yn amlwg, sef clirio'r sianel, ond yn anffodus, nid yw pethau mor syml â hyn. Y cwestiwn tyngedfennol yw 'Pwy sydd yn gyfrifol am lanhau'r sianel?'

Ym marn nifer o drigolion y cylch ar yr Awdurdod Dŵr mae'r bai. Ond beth yw ymateb yr Awdurdod? Yn ôl eu swyddogion mae eu cyfrifoldeb nhw am lanhau gwely'r Afon Cegin yn dod i ben yng nghyffiniau Cae Hob. O Gae

Hob i fyny'r afon i gyfeiriad ei tharddiad ar y gors cyfrifoldeb y gwahanol ffermwyr sydd â'u tir yn ffinio ar yr afon yw'r gwaith o'i chadw'n lân ac o glirio'r ffosydd ar y gors.

Mae'r Cynghorydd Sir lleol, Mrs Pat Larsen wedi cael swyddogion yr Awdurdod i fyny i'r pentref i weld y broblem, ac wedi mynd mor bell â thrafod y broblem ym Mhencadlys yr Awdurdod gydag uchel swyddogion. Yn ogystal llwyddodd Mrs Larsen i gael gweithwyr i glirio'r afon dair gwaith yn y gorffennol o dan nawdd y Cynllun Creu Gwaith, ond bellach mae rheolau'r Cynllun wedi newid, ac nid yw gweithwyr a gyflogir gan y cynllun yn cael defnyddio



CLWB CEFNOGWYR YR ECO


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cododd pris cynhyrchu'r Eco bron hanner cant y cant. Tua blwyddyn yn ôl, codwyd pris y papur i dalu am bedair tudalen ychwanegol o ddeunydd. Ond ymddengys, erbyn hyn, nad yw hyn yn ddigon. Gorfodwyd ni'n ddiweddar i archwilio ffyrdd eraill o gynhyrchu'n hincwm gan nad ydym yn dymuno codi'r pris mor fuan ar ôl y codiad diwethaf. Ein dymuniad a'n bwriad yw cadw ein ffurf a'n safon arferol am y pris isaf posibl i'n darllenwyr.

Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu Clwb Cefnogwyr yr Eco a rhan o'i waith fydd codi arian. Yn y rhifyn nesa byddwn yn eich gwahodd i ymaelodi, ac am gyfraniad o £6 y flwyddyn bydd cyfle i chwi ennill gwobrau ariannol sylweddol.

Rhan arall o waith y Clwb fydd cynnal gweithgareddau cymdeithasol ar raddfa bro. Un enghraifft o hyn yw'r Ffug-Eisteddfod sydd eisoes wedi ei threfnu (Gweler tudalen 3).

Taer erfyniwn am eich cefnogaeth unwaith eto.

LLOSGI Tŷ HAF GER LLANBERIS



Am 11.30 nos Fawrth 20 Hydref galwyd y Gwasanaeth Tân i ddiffodd y fflamau mewn bwthyn unig uwchben Llanberis. Nid oedd neb yn y tŷ ar y pryd. Achoswyd difrod sylweddol. Gŵr o Birmingham, sy'n defnyddio Pen Ceunant Isa am ran o'r flwyddyn yn unig, yw'r perchennog. Galwyd yr heddlu hefyd i'r fan.

Y diwrnod canlynol archwiliwyd y difrod gan arbenigwyr ffensiog yr

heddlu.

Gwyddom bellach fod y tân wedi'i gynnau'n fwriadol fel rhan o ymgyrch llosgi ail gartrefi. Bu ymgais hefyd, bron ar yr un adeg, i losgi dau dŷ haf ar Ynys Môn. Mewn llythyr i'r BBC ym Mangor hawliodd 'Meibion Glyndŵr' y cyfrifoldeb am y llosgi.

Digwyddodd y tân yn Llanberis nepell o'r fan ble llosgwyd tŷ haf arall tua deunaw mis yn ôl.

peiriannau i wneud eu gwaith sydd yn gwneud eu tasg wrth glirio'r afon yn amhosibl ond gobeithia Mrs Larsen y bydd y gweithwyr yn clirio'r llwybrau eto cyn bo hir. Hefyd mae Mr Aled Green, un o gynrychiolwyr y pentref ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi codi'r cwestiwn yn gyson mewn cyfarfodydd. Wrth gwrs cyfrifoldeb y cynghorau cymuned (yr hen gynghorau plwyf) yw'r llwybrau hyn, ond unwaith yn rhagor barn Mr

Green a nifer o rai eraill yw bod yr Awdurdod Dŵr yn rhannol gyfrifol, ochr wrth ochr â'r ffermwyr, i glirio'r ffosydd a'r afon. Mae rhai o'r perchnogion tir yng nghyffiniau'r gors eisoes wedi clirio'r ffosydd, ond mae rhai eraill yn dweud nad oes llawer o bwynt clirio'r ffosydd os nad yw'r afon yn cael ei chlirio, sydd yn dod â ni yn ôl eto at yr Awdurdod Dŵr.

Yn ôl swyddogion yr Awdurdod os ydyn nhw'n derbyn cyfrifoldeb am glirio'r ffosydd a'r Afon Cegin i fyny at ei tharddiad, rhaid iddyn nhw dderbyn hefyd rai cannoedd o sefyllfaoedd tebyg ledled Gwynedd a'r canlyniad anochel wedyn fydd codi'r biliau dŵr i gwrdd â chost y gwaith glanhau.

Mae un peth yn sicr, os nad oes ffordd o ddatrys y broblem yn fuan mae'r golygfeydd a welir yn y lluniau yn mynd i boeni'r ardalydd am beth amser i ddod.

Ôl-nodiad: Ar un ystyr nid yw'n deg rhoi'r bai am y sefyllfa ym Mhenisarwaun ar unrhyw Awdurdod neu unigolion. Gwraidd y broblem yw rhywbeth a ddigwyddodd miloedd o flynyddoedd yn ôl yn ystod Oes yr Iâ, pan ddaeth rhewlif i lawr o Eryri a newid cwrw yr Afon Cegin. Cyn Oes yr Iâ roedd yr afon yn llifo i lawr i'r Afon Seiont ond daeth y rhewlif i lawr a chau hen gwrw yr afon a'i gorfodi i newid cyfeiriad.

ECO'R WYDDFA

Rhif 64
TACHWEDD 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penylllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
Padarn 561

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardal oedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun (Penylllyn
329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar

TACHWEDD 26

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

TACHWEDD 18

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

DRAENOG WEDI CODI GWRYCHYN ETO

Annwyl Olygydd,
Yn dilyn hynt a helynt y Draenog
(Llythyr, Hydref), hoffwn innau
fynegi pryder yn y modd y cesglir
deunydd ar gyfer yr eitem hon.

Deallaf fod ffynhonell
gwybodaeth y Draenog weithiau
yn anhysbys, fel nad oes modd
darganfod dilyrwydd na
chywirdeb y ffeithiau.

Cyfeiriai at bosteri uniaith
Saesneg noson goffi Clwb Pobly
Cwm, Cwm y Glo, a'r awgrym fod
y sawl a oedd yn gyfrifol eisiau
Seisnigeiddio'r pentref.

Er bod y ffeithiau ynglŷn â'r
posteri Saesneg yn gywir, nid
felly'r awgrym sy'n dilyn, fel y
darganfuasai'r Draenog pe bai
wedi gwneud ei waith cartref. Y
tro hwn, wrth gwrs, nid oedd yn
bosib iddo wneud hynny,
oherwydd daeth y wybodaeth i'w
sylw drwy gyfrwng llythyr
di-enw.

Credaf fod lle yn yr Eco i bigion
dychanol a digrif y Draenog, a
hyderaf na fydd yn caniatáu i'w
golofn ddatblygu yn lwyfan i
fynegi barn y rhai hynny sydd yn
dewis cuddio o dan fantell
llechwraidd yr anhysbys.

Yr eiddoch yn gywir,

Islwyn Roberts

Tyddyn Alys

Cwm-y-glo

CHWARAE'N DDIOGEL

Annwyl Olygydd,

Am 6.30 p.m. nos Sul, Hydref
11, 1981 bydd y BBC yn darlledu y
gyntaf o ddeg rhaglen wythnosol
fydd yn canolbwyntio ar atal
damweiniau i blant. Caiff y gyfres
ei darlledu trwy Brydain ac mae'r
Cyngor Addysg lechyd wedi
paratoi llyfryn lliwgar a
gwerthfawr i gydfynd â'r
ymgyrch.

Yn anffodus, gwrthodwyd cais
a wnaethpwyd ar ran yr
Awdurdod hwn i ddosbarthu
copïau Cymraeg o'r llyfryn ac o
ganlyniad hoffwn ddod â'r
erthygl (tud.12) i'ch sylw. Mae'n
dilyn rhai o brif themâu yr
ymgyrch bwysig hon, a'i hawdur
yw Dr Carl Clowes (Uwch
Gofrestrydd mewn Meddygaeth
Gymdeithasol), cydweithiwr i mi
yn yr Awdurdod lechyd.

Buaswn yn dra diolchgar
petaeth yn gallu dod â'r ymgyrch
i sylw darllenwyr y Papurau Bro,
ac os hoffech unrhyw
sylwadaeth perthnasol pellach
peidiwch petruso rhag cysylltu â
mi yn y swyddfa uchod.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

Gareth Morgan,

Swyddog Addysg lechyd

Rhanbarthol

Bodfan

Ysbyty Eryri

Caernarfon

CYSTADLEUAETH PANEL LLYFRAU CYMRAEG GWYNEDD

Annwyl Syr,

Mae'n dda clywed bod
diddordeb mawr yng
nghystadleuaeth Panel Llyfrau
Cymraeg Awdurdod Addysg
Gwynedd i gyfieithu nofel i blant.
Gan fod cynifer wedi ymddiddori
yn y gystadleuaeth gallai rhai
gyfieithu'r un nofel — a gallai
hynny fod yn wastraff ar
adnoddau.

Tybed a gaf ofyn drwy gyfrwng
eich papur i hawb sy'n bwriadu
cystadlu ar gyfieithu nofel i blant
anfon ataf rhag blaen i roi enw'r
nofel. Os digwydd i fwy nag un
daro ar yr un llyfr rwy'n siŵr y bydd
modd inni ddod i ddealltwriaeth
rhyngom er mwyn sicrhau
amrywiaeth eang o nofelau.

Yn gywir iawn,

Dafydd Orwig,

Cadeirydd y Panel

Cilcaban

Braichmelyn

Bethesda.

CYMDEITHAS BOB OWEN

Annwyl Olygydd,

Carwn ddwyn sylw darllenwyr
Eco'r Wyddfa at Gymdeithas Bob
Owen, sef cymdeithas o gasglwyr
sydd bellach yn bump oed a chanddi
700 o aelodau. Prif weithgarwch y
Gymdeithas hon yw cyhoeddi tri
chopi o'r 'Casglwr' yn flynyddol,
sef cylchgrawn diddorol yn trafod
pob math o bethau — llyfrau,
lluniau, llestri, mapiau, stampiau,
etc. £2 yw'r tâl-aelodaeth ac mae
croeso i unrhyw un o'ch darllenwyr
ymuno â'r Gymdeithas drwy anfon
£2 (tâl-aelodaeth am 1982) i mi.

Raymond B. Davies

(Is-Ysgrifennydd Cymdeithas Bob
Owen)

Cartrefle,

Ffordd Brynglas,

Llanbadarn Fawr,

Aberystwyth.

'PETHAU PRIN'

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw y rhai hynny o
blith eich darllenwyr sy'n casglu
pethau prin ac anarferol at gyfres
newydd gan HTV yn ymwneud
â'r pethau hyn. Byddwn yn falch
o glywed gan unrhyw berson
sydd â chasgliad go ddiddorol ac
yn ystyried cynnwys eitem am eu
gweithgarwch yn 'Pethau Prin'.
Gellir cysylltu â ni trwy ffonio neu
ysgrifennu at:

'Pethau Prin',

HTV

Y Ganolfan Deledu,
Yr Wyddgrug, Clwyd.
CH7 1YA

Yn gywir,
Michael Bayley Hughes
(Ymchwilydd y Gyfres)

Y Parch R. BRYN WILLIAMS

Diolch am eich gwerthfawrogiad o'r Parch
R. Bryn Williams yn rhifyn Hydref.
'Roedden ni'n lwcus drws ben i'w gael ef yn
weinidog yng Nghapel Coch, ac i ddilyn y
dyn annwyl hwnnw, y Parch J.P. Davies.
Dyn cymharol ifanc oedd Bryn Williams yn
dod i'r pentre, a minnau newydd ddechrau
yn Ysgol Brynrefail. Dangosodd ei
ddealltwriaeth o bobol ifanc o'r cychwyn.
Yn y gobeithlu, fe fyddai'r festri yn llawn o
blant, mamau a thadau, ac 'roedd
llwyddiant ar ei waith yno, ond yn Urdd y
Bobol Ifanc y cofiaf ef ar ei orau, yn
ystafell y blaenoriaid neu un o ystafelloedd
bychain y cefn, yn ein cymell i ddarllen
papur ar rhyw bwnc neu lyfr neu berson,
neu'n ein harwain i reolau barddoniaeth, a
thrw hynny yn agor ein meddyliau a
chyfoethogi ein diwylliant.

'Roedd merched y capel wrth eu bodd
yn ei weld yn bedyddio, ac 'roedd ei
bregethu yn gallu gafael hyd yn oed mewn
dychymyg cysgadwr fel fi. Daeth yn
arweinydd i'r pentre. 'Roedd ef a'r Parch
Ben Owen yn gyfeillion mawr. Cofiaf y tro
cyntaf iddynt dorri tir newydd, ar ôl hir
ymgyngori ymysg y blaenoriaid, a newid
pulpudau, — rhywbeth anhygoel yr amser
hwnnw.

Pan gychwynnodd Eunice Owen Aelwyd
yr Urdd yng Nglawdr, 'roedd cefnogaeth
frwdfrydig yn y pentre, ac 'roedd Bryn
Williams yng nghanol y gwaith. 'Doedd hi
ddim yn ddigon ganddo ef bwyllgora.
Gwelais ef yn dod lawr i Gae Beal, ac hyd
yn oed cyn belled â'r Ddôl Fawr, yn tynnu
ei het a'i gôt ac yn chwarae pêl-droed neu
hoci efo'r bechgyn a'r merched. Efoedd y
cyntaf erioed i mi weld yn chwarae mewn
coler gron.

'Roedd ei ddylanwad ar ieuencid y
pentref yn y cyfnod hwnnw yn ddifysur, a
braint oedd ei gael yn weinidog.

Goronwy Owen

23 Heol Croes Faen

Nottais

Porthcawl

"ASGWRN I'W GRAFU"

Pob hwyl i'r Eco yn ystod tymor y
gaeaf. Edrychaf ymlaen bob mis
amdano, gan ei fod yn dwyn
atgofion melys i mi a fagwyd ym
mro Eco'r Wyddfa. Piti na
fyddai'n bosib' ail agor y Golofn
Farddol — a rhoi 'asgwrn i grafu'
fel petai i'r rhai hynny sy'n hoff o
feddwl a chwilota yn hytrach nag
eistedd i fwynhau syniadau, dwl yn
aml, a geir ar y teledydd.

Beth am rhyw fath o
gystadleuaeth fel:

Yr Eco i enwi, o fis i fis, Bardd,
Cerddor, Pregethwr enwog o'r
gorffennol, a'r cystadleuwyr i
ysgrifennu yr hyn a allent
amdanynt, ac yna yr Eco i
gyhoeddi'r buddugol mewn rhifyn i
ddod.

Yr eiddoch yn gywir

E. Jones,

Bryn Gelli,

Talysarn.

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau, nos Lun, Hydref 6. Y wraig wadd oedd Mrs Gwynfor Williams, Llanrug, ac fe roddodd sylwadau ar gynhadledd Undeb y Mamau a gynhaliwyd yn Llandudno. Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs O.C. Roberts ar eu gwyliau ym Mhatagonia lle y ganwyd Mr Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs O.C. Roberts.

Cafwyd cyfarfodydd Diolchgarwch llewyrchus iawn. 'Roedd y plant yn cyflwyno eu rhoddion fore Sul, Hydref 11, ac fe gafwyd eitemau ganddynt. Y pregethwr gwadd oedd y Parch Emrys Edwards, Caernarfon. Fe anfonwyd y ffrwythau, llysiau a blodau i Gartref Frondeg, Maesincla, Caernarfon. Diolch i bawb am eu haelioni.

CAPEL BOZRA – Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch fore Sul, Hydref 18, yng Nghapel Bozra, gyda'r plant dan arweiniad Mrs Ann Evans. 'Roedd yn hyfryd gweld y plant yn gwneud eu gwaith mor dda.

CAPEL GLASGOED – Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng ngofal yr aelodau ifainc a'r plant. Braff oedd gweld yr ieuenctid yn dod i wneud eu rhan fel hyn.

CLWB YR HEULWEN – Cafwyd cyfarfod o'r Clwb, ddydd Mawrth, Hydref 20. Cafwyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni Mr a Mrs Leslie Jones, Meillionydd, yn sôn am eu gwyliau yn yr Eidal, ac yn dangos ffilmiau. Diolchodd Mrs D. Fisher iddynt. Rhoddwyd y te gan Mrs J.P. Jones, Mrs R. Jones a Miss G. Jones, i gyd o Fryntirion. Enillwyd y raffl gan Mrs Porter, Llys-y-gwynt. Dymunwyd pen-blwydd hapus yn 70 oed i Mrs K. Williams, 8 Llys-y-gwynt.

Aeth amryw o'r aelodau o amgylch y pentref i gasglu tuag at Henoed Gwynedd. Casglwyd £29.09. Diolch i bawb yn y pentref am eu caredigrwydd.

ADREF ETO – Balch ydym o weld bod Mrs Jones, Rhos Wian yn ôl yn ei chartref ar ôl ei hanffawd yn ystod y storm yn ddiweddar.

GWAELEDD – Nid ydyw Mrs S. Humphreys, Y Winllan, yn dda iawn ar hyn o bryd. Mae hi yn yr ysbyty ym Mangor. Anfonwn ein cyfarchion ati, a hefyd Mr W. Griffith, Tros Waun sydd yn cwyno. Adferiad buan i'r ddau.

CROESO – I Miss Mair Foulkes i'n plith. Mae Mair wedi symud i fyw i 3 Brynhyfryd o'r Fachwen. Gobeithio hefyd y bydd ei hiechyd yn well cyn bo hir.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Selwyn Griffith, 5 Bryntirion, ar ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

CYDYMDEIMLWN â Mr a Mrs T. Evans, Gors, ar eu hail brofedigaeth mewn cyfnod byr.

GWIBDAITH I GAER – Mrs M. Williams, Carrog, sydd yn gyfrifol unwaith eto am drefniadau'r trip. Cofiwch y bydd y bus yn cychwyn am 8.30 o'r gloch, ddydd Sadwrn, Tachwedd 28. Cost y daith yw £1.50 i oedolion a 75c i blant. Rhowch eich enwau i Margaret os gwelwch yn dda. Ei rhif ffôn yw Llanberis 716.

DIOLCH i'r bechgyn yn nhîm Antur Gwynedd, sef y gweithwyr sydd wedi bod yn brysur yn atgyweirio Neuadd yr Eglwys. Mae'r neuadd yn edrych yn well o lawer erbyn hyn, ac mae'r swyddogion a'r pentrefwyr yn ddiolchgar iawn i'r tîm am eu llafur. YR URDD – Gwerthwyd baneri'r Urdd o amgylch y pentref yn ddiweddar. Bu'r ymgyrch yn llwyddiant mawr, a chafwyd elw o £25.48. Mae pwyllgor ariannol yr Urdd yn ddiolchgar i'r casgyllddion am eu gwaith ac i bawb yn y pentref am eu haelioni.

EISTEDDFOD PENISARWAUN – Daeth aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys nifer o rai newydd, brwd, at ei gilydd yn ddiweddar.

Gobeithir cynnal Eisteddfod 1982 ar Fai 14, ond cyn hynny fe drefnir gweithgareddau i ddiddanu ac i atgyfnerthu'r Gronfa.

YR YSGOL GYNRADD – Diolchgarwch. Cyfrannodd y plant yn hael trwy eu rhoddion o ffrwythau a llysiau a drosglwyddwyd i'r Henoed ym Mhlas Pengwaith, Llanberis; yn ogystal cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch pwrpasol cyn torri am wythnos o wyliau.

Fore Sadwrn, Hydref 3, aeth 13 o ddisgyblion yr Ysgol i Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon i gymryd rhan yn y Gweithdai Dawnsio Gwerin a drefnwyd fel rhan o Weithgareddau Gŵyl Werin 1981. Yn y Gweithdy cawsant gyfle i gyfarfod un o uwchswyddogion y Gymdeithas Ddawns Werin, Mrs Alice Irene Williams. Yr hyn sy'n ddiddorol yw mai ym Mrynrefail y cafodd hi ei magu, ac fe dderbyniodd ei haddysg gynnar yn Ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun – cyd-ddigwyddiad hapus iawn! Mrs Williams yw hyfforddwraig Parti Gwrych, Abergele, un o bartïon dawnsio gwerin gorau Cymru.

DEISEB YR YMGYRCH DDIARFOGI BYD

(21 Little Russell Street, Llundain WC1 4HF)

Mae'r pedwar cais ar y ddeiseb hon yn crynhoi'r penderfyniadau a dderbyniwyd yn unfrydol a'u harwyddo gan 149 o brif gynrychiolwyr y cyfan bron o holl lywodraethau'r byd, ac a gyhoeddwyd yn Nogfen Derfynol Sesiwn Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfogi ym 1978. Felly y cyfan a ofynnwn yw i bob llywodraeth weithredu'r hyn maent eisoes wedi cytuno arno.

Dosberthir y ddeiseb hon yn ryngwladol, gan gynnwys Moscow a Leningrad. Gobeithio y cefnogir hi gan drwch y boblogaeth mewn llawer gwlad i ddangos awydd angerddol pobl ymhobman i fyw heb ofni rhyfel mwy. Fe'i cyflwynir i eisteddiad nesaf Sesiwn Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfogi ym 1982. Eisoes cyflwynwyd deisebau enfawr dros Heddwch un Siapan, Denmarc a Rwsia. Galwn am gytundeb byd-eang i ddiarfogi fel ein blaenoriaeth er mwyn lleihau tyndra, a'n nod cyntaf fydd gwneud arfau niwclear, a phob arf sy'n llwyr-ddileu, yn anghyfreithlon.

Mae dinistr arfau niwclear tu hwnt i'n dychymyg. Fe'i defnyddir i bwrpas hil-laddiad ac maent yn peryglu bodolaeth yr hil-ddynol. Rhagwelai

gwyddonwyr blaenaf y byd o'r Dwyrain a'r Gorllewin, a gyfarfu yng nghynhadledd Pugwash fis Awst diwethaf y digwyddai "rhyfel niwclear drychinebus ac enfawr" oni chymerid camrau ar unwaith i leihau y "cyflenwad ffaidd anferth o arfau niwclear". Rhybuddia arbenigwyr meddygol ni nad oes yr un ateb meddygol i ymbelydredd niwclear.

Croesawyd yr Ymgyrch Ddiarfogi Byd-eang gan y Llywodraeth (Datganiad Seneddol 23.4 1980), gan y Blaid Lafur (Cynhadledd y Blaid, Medi 1980), a chefnogir yr amcanion hefyd gan yr Undebau Llafur (Cynhadledd TUC Medi 1980). Fis Tachwedd diwethaf yr oedd y Cyngor Eglwys Prydeinig yn bendant ac unfrydol yn condemnio'r ras arfogi, gan annog yn arbennig gefnogaeth i'r ddeiseb hon.

Gellwch chwi gynorthwyo i chwyddo'r llanw o atgasedd at ryfel niwclear.

Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Cynhelir cyfarfod i sefydlu cangen cylch Arfon am 7.30 nos Fercher, Tachwedd 11 – sef dydd y Cadoediad. Y siaradwyr fydd Dr Eirwen Gwynn a Mr Emlyn Sherrington.

5ed CHWEFROR 1982

cynhelir

FFUGEISTEDDFOD BRO'R ECO

(Cystadlu rhwng y pentrefi)

YN NEUADD YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL

Beirniad: WIL SAM

Gohiriwch bopeth ar y dyddiad hwn
manyllion llawn yn y rhifyn nesa'.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMBOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Penylllyn 236.



Pedwar o blant o Ysgol Tan-y-Coed gyda thystysgrifau a gawsant am fynychu ysgol am flwyddyn heb golli diwrnod. Y pedwar yw, o'r chwith: Berwyn Pattison, Bethan Evans, Eurgain Evans a Meurig Green.

RHODDION

£1.00: E. Jones, Bryn Gelli, Talysarn.

£1.00 – Di-enw, Deiniolen

50c – Mrs Annie William

£2 – Mrs Mair Davies, Pen-y-bont, Deiniolen

£1.55 – Di-enw, Clwt y Bont.

AR WERTH


2 Feic plentyn

a

2 racer hogyn.

Y Felinheli 670861.

BRYNREFAIL



LLONGYFARCHIADAU i Mr David Oliver Williams, mab Mrs Evelyn Williams, Llys Arfon, ar gael ei ethol yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Blaid Lafur yn y Gynhadledd yn Brighton. Tra'n nyrsio yn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, 1949-55 ymdaflodd i weithgarwch y Blaid Lafur - bu'n ysgrifennydd a chadeirydd y gangen leol ac yn 1952 etholwyd ef yn gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Dinbych.

Aeth i Sheffield fel Swyddog Rhanbarth COHSE ac yna i'r pencadlys yn Surrey fel Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb ym 1974.

Er i'w waith orfodi Mr a Mrs Williams a'r teulu gartrefu yn Lloegr, mae gwreiddiau'r ddau yn dal yn dynn yn ucheldir bro'r Eco - Oliver yng Nghlegir, a Kathleen, ei wraig, yr ochr draw i Lyn Padarn, yn Ninorwig.

SEIAT DOSBARTH - Cynhaliwyd y Seiat Dosbarth Flynyddol, unedig rhwng Dosbarth Deiniolen a Llanberis yn Festri Brynrefail, nos Fawrth, Medi 29. Agorwr y mater sef 'Agoriad i'r Maes Llafur - Llyfr yr Actau' oedd y Parch Hugh John Hughes, Jerusalem, Llanberis. Yr oedd y rhannau arweiniol dan ofal y Parch Trefor Lewis, Deiniolen a chyfeiliwyd gan Mr Elfed Roberts.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU - Yng Nghapel Disgwylfa, Deiniolen y cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol eleni, bnawn Sul, Hydref 4. Cymerodd oddeutu ugain o blant Ysgol Sul Brynrefail ran ar lafar a chân yn y cyfarfod, ar y thema 'Llawenydd' wedi ei drefnu gan Mrs Ifanwy Jones. Cafwyd Cymanfa Ganu undebol eglwys Dosbarth Deiniolen yn yr hwyr dan arweiniad Miss Lowri P. Roberts, Godre'r Coed.

YR WYL DDIOLOGHARWCH - Y Parch Trefor Jones, Engedi, Caernarfon oedd y pregethwr gwadd yn oedfa'r bore ddydd Llun, Hydref 19. Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn gan blant yr Ysgol Sul - Meinir a Marian, 3 Trem Eilian; Jacqueline, Glenda a Paula, 3 Minffordd; Alwen a Caron, 1, Tai Orwig; Catrin ac Owain Gwyn, Min-y-nant; Nerys Ann, Llwyncoed; Joanne, Maria, Eira Wyn a John, Minafon; Kelvin a Nicola, 2 Trem Eilian a Martin, Tros-yr-afon - dan ofal Carol Houston a Lowri P. Roberts. Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd rhan mewn cyfarfod gwaddi gan Mr Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, Mr Gwilym Wyn Williams, 3 Tai Orwig a Mr Elfed Roberts, Ffrwd Goch. Diweddwyd gan Miss A.M. Williams, Llys Arfon. Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Mr R. Wyn Evans, Ty'n Buarth.

CLWB MAMAU - Yn Nhŷ Glas ar Hydref 8, croesawyd dwy aelod newydd i'r clwb, sef Jinnie Williams a Jennie Hughes. Trefnwyd gemau gan Audrey Roberts a Liz Thomas. Rhoddwyd y te gan Rhian Jones a

Helen Jones, anrheg y mis gan Audrey Hasson, ac fe'i enillwyd gan Jennie Hughes.

Bydd y wibdaith i siopau Caer ar gyfer y Nadolig ar Dachwedd 14. Mae croeso i bawb, enwau gyda blaen-dal o 50c i Liz Thomas, Audrey Roberts neu Carol Houston.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cyfarfod mis Medi - Cafwyd arddangosfa o ddarpariaethau ymbincio gan Miss Rose Wellslay. Rhoddwyd y te gan Mrs Griffiths a Pat Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Betty Owen ac fe'i enillwyd gan Mair Williams.

Cyfarfod mis Hydref - Cafwyd arddangosfa o sychu a phwyso blodau gan Liz Thomas, Creigle. Rhoddwyd y te gan Jinnie Roberts a Mair Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Gwyneth Jones ac fe'i enillwyd gan Sheila Williams.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyd mis Medi. **Medi 4:** 1. Bertie Roberts, 2. Shirley Roberts, 3. Islwyn Jones. **Medi 11:** Alwyn Cae'r Bythod, 2. Audrey Hasson, 3. Norma Green. **Medi 18:** 1. Dilys Jones, 2. Sylvia Williams, 3. Elwyn Jones. **Medi 25:** 1. John Williams, 2. Gary Williams, 3. Ann Williams.

PRIODAS - Ddydd Sadwrn, Medi 26, yng Nghapel Brynrefail, priodwyd Bethan Wyn Roberts, merch Jennie A. Roberts a'r diweddar W. Meirion Roberts â Kenneth Lambert, mab Leslie Lambert a'r ddiweddar Megan Lambert. Bydd y par ifanc yn ymgartrefu yn 5 Glandwr Terrace, Clwt y Bont, Deiniolen. Dymuna Bethan a Ken ddiolch i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am yr arian a'r llw anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

YR URDD - Gwerthwyd Baneri'r Urdd yn y pentref yn ddiweddar, a chafwyd elw o £20.70 rhwng pentrefi Brynrefail a Chwm-y-Glo. Mae Pwyllgor Ariannol yr Urdd yn ddiolchgar i'r casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

CYMDEITHAS ERYRI

Bu cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Eryri ar Fedi 16 yng Nghaernarfon; 'roedd Mrs Elinor Wigley yn y gadair. Trefnir gan y gymdeithas hon nifer o ddigwyddiadau cerddorol o bob math yng Nghaernarfon a'r ardal yn ystod misoedd y gaeaf. Yn y cyfarfod cynigodd Mrs Wigley ei hymddiswyddiad ac etholwyd Mr John Huw Davies fel cadeirydd. Etholwyd hefyd Mr ab Iorwerth (Ysgrifennydd) a Mr Humphreys (Trysorydd). Trafodwyd rhaglen y tymor, a chyhoeddir hon pan fydd trefniadau wedi cael eu cyflawni. Bydd y Gymdeithas yn croesawu aelodau newydd; mae manylion ar gael gan yr ysgrifennydd yn Alltwn, Bontnewydd.



DRAENOG

Clywed bod Owen Edwards a chriw Sianel 4 yn bwriadu mynd draw i bwl nofio Bangor bob nos Fawrth o hyn ymlaen i ddechrau ffilmio fersiwn Gymraeg o 'Jaws'. Clywed hefyd mai rhai 'pysgod' siapus o Benisa'rwaun fydd y sêr.

CWMNI THEATR IEUENCTID CENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

Tymor 1981-82

Argyfer ei gynhyrchiad a thaith o gylch theatrau Cymru, y mae'r Cwmni uchod wedi comisiynu drama newydd, roc-miwsical o'r enw Trystan ac Eysyllt. Mae'r gwaith, a ysgrifennwyd gan Emyr Edwards, gyda cherddoriaeth gan y cerddor ifanc talentog, Euros Rhys, wedi ei seilio ar gyfuniad o ddwy ffynhonnell o'r stori serch ramantaidd ganol oesol - Trystan ac Eysyllt - o'r rhamantau Ffrengig ac o ffynonellau Celtaidd hefyd. Mae'r gwaith wedi ei ysgrifennu fel roc miwsical. Mae'r Cwmni eisoes wedi cyflwyno dwy roc miwsical gwreiddiol sef Jiwddas Iscariot ac Y Geni, yn 1978 a 1979. Mae'r awdur wedi gosod ei stori mewn cefndir Celtaidd, yng Nghernyw, lwerddon a Llydaw, ac mae'r cyfnod yn gyfnod Celtaidd yn hytrach nag yn Ewrop y canol oesoedd. Sylfaen y gwrthdaro yn y gwaith yw'r pwerau sydd yn ceisio gwahanu Trystan rhag Eysyllt, pwerau goruwchnaturiol a gwleidyddol.

Dewisir y Cwmni, fel arfer, adeg yr Hydref eleni o nifer fawr o ymgeiswyr. Bydd rihysals yn Llangrannog adeg y Pasg cyn y daith o gwmpas y theatrau mawrion, sef Clwyd, Seilo Caernarfon, y Werin, y Felinfach a'r Sherman, Caerdydd.

Dyma nawfed blwyddyn y cwmni ers ei sefydlu ym 1973 gan Emyr Edwards a'r Urdd. Yn ystod yr amser hynny fe gyflwynwyd saith comisiwn gwreiddiol gan y Cwmni. Ar gyfer ei ddegfed pen-blwydd gobeithir cyhoeddi llyfr o hanes y cwmni hyd yn hyn.

CODWCH EICH PAIS

Mynnwch eich copi o Pais y mis hwn i chi gael mwy o hanes Arwel Jones nag a gawsoch erioed o'r blaen. Gwestai Pais yn sgwrsio'r mis hwn yw Trebor Edwards, un arall o sêr y byd adloniant Cymraeg.

Os ydych yn hoff o weu yna mae patrwm gweu godidog siwmpwr Pais ar eich cyfer hefyd. Bu Miriam Llywelyn Hughes, eto o fro'r Eco, yn busnesa yn y BBC ym Mangor, darllenwch am ei hymweliad â Bryn Meirion yn Pais y mis yma.

Mae Pais ar werth yn eich siop lyfrau Cymraeg leol, neu, os am sicrhau eich copi bob mis - beth am danysgrifio i Pais - 'sgrifennwch atom yma yn swyddfa Pais, 40 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, Arfon, Gwynedd, ac fewn y manylion i gyd i chi.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

Ffiniau'r Gorffennol

CYBI 1871-1956

Fydd neb yn galw y diweddar Mr Robert Evans (llythyrgludydd) Bryn Eithin, Chwillog, wrth ei enw iawn, ond yn hytrach gelwir ef wrth ei enw barddol sef Cybi.

Enillodd lawer iawn o gadeiriau am ei farddoniaeth, enillodd goron hefyd, a dwsin o fedalau aur a gwobrwyon amrywiol eraill.

'Sgrifennodd ugain o lyfrau yn Gymraeg. Agorodd siop lyfrau yn Neuadd y Farchnad, Pwllheli, ar brynawniau Mercher, a gallodd werthu can mil o gopiau o'i weithiau ef ei hun trwy ei ddiwydrwydd yma ac acw ac yn y Farchnad.

Pan yn un ar ddeg oed yr oedd Cybi yn gweithio ar ffermydd yn Llŷn. Pan yn ddeunaw oed aeth i weithio i Lerpwl, a chafodd waith oedd yn rhoi mwy o gyfle iddo ddarllen a llenydd. 'Sgrifennai erthyglau i wahanol bapurau. Dechreuodd gasglu llyfrau Cymraeg fel plaserwaith (hobi). 'Roedd Lloyd George yn ffrind personol iddo.

Dywedir yr arferai nifer o



fyfyrwyr ddwad bob haf o Brifysgol Cork i gael gwersi preifat ganddo a darlithoedd gyda chysylltiad â'r iaith Gaeleg. A bu athrawon o Brifysgol Cork hefyd yn cael gwersi preifat ganddo.

Y mae un o lyfrau Cybi ar y bwrdd o fy mlaen rwan, sef Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon. Yr Ail Argraffiad, 1923. Anfonwyd cynnwys y llyfr hwn i gystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol Barri 1920, dan y pennawd 'Brasluniau o Chwe Hen Gymeriad o Unrhyw Sir yng Nghymru'. Deallwch mai yn y llyfr yma gan Cybi y cefais i ddefnydd i wneud yr erthygl ganlynol ar gyfer Eco'r Wyddfa.



OWEN JONES, PLAS GWYN
1835-1891

'Rwy'n cofio am ddyn oedd yn medru taflu ei lais yn dwad i'n diddori i ysgol Bryn Eryr erstalwm - efallai bod rhywun yn cofio ei enw? Byddem wrth ein bodd yn gweld a gwrando ar y dyn taflu ei lais. Credaf y byddai

ganddo ddwy ddelw ar y llwyfan - hen ŵr a hen wraig. Byddai yn mynd tu ôl i gyrten ac yn bur sydyn newid ei ddillad, ac actio cymeriadau o bob math. Hwn oedd y rhyfeddod mwyaf a welsai plant Llanrug ddechrau'r ganrif yn fy marn i. Pwy tybed all gofio ei hanes a'i enw?

Ond clywais fy nhad yn sôn am y tafleisydd o'r enw Owen Jones, Plas Gwyn, Abererch ger Pwllheli. Yr oedd fy nhad wedi ei weld a'i glywed. 'Roedd Owen Jones wedi marw rhyw ddeng mlynedd cyn fy ngeni i. Gallasai ddynwared bron bob peth.

Y FORWYN A'R LLO

Dywedir mai fel hyn y dechreuodd Owen Jones daflu ei lais.

Yr oedd llo ym Mhlas Gwyn wedi mynd ar goll. Aeth pawb allan i chwilio amdano. Wrth edrych ar y forwyn, geneth go ddiniwed yn chwilio a chwalu, daeth i feddlwl Owen Jones yn sydyn i gael dipyn o hwyl, a beth wnaeth ond dynwared y llo yn

gwneud sŵn torcalonnus, fel un ar goll. Neidiodd y forwyn i'r gongl lle yr oedd Owen Jones yn cuddio, yr oedd hi yn benderfynol fod y llo wrth draed Owen Jones. Cadwodd Owen Jones heb chwerthin! Dyna'r tro cyntaf i Owen Jones ddarganfod y gallai daflu ei lais a chael hwyl.

Cafodd fenthyg llyfr gan Plenydd ar Dafleisiaeth (Valentine Vox). Astudiodd Owen Jones y llyfr, a daeth i fedru dynwared pob creadur. Gwelodd fod ganddo gyfle i hel pres y rhent trwy fynd o gwmpas y wlad i daflu ei lais mewn cyfarfodydd. Teithiai ymhell ac agos a dwad adref gyda phoced law.

SIMDDE'R PARLWR

Un tro ar ei daith i'r Sowth digwyddodd fod yn aros mewn tŷ hollol ddieithr. 'Doedd neb erioed wedi clywed sôn am Owen Jones.

Gan ei fod yn edrych fel gŵr bonheddig aeth y wraig i'r parlwr i hwyllo bwyd iddo. Wrth weld y wraig yn sefyll yn siriol o flaen y bwrdd daeth direidi heibio Owen Jones ac i gael dipyn o hwyl, actiodd ddau, sef gŵr a gwraig yn ffraeo yn y simdde. Mi ddychrynodd y ddynes am ei bywyd, rhedodd allan a dweud wrth ei gŵr fod yna bobol wedi disgyn i'r simdde. "Dowch mewn munud i'w hel nhw allan", meddai. Dywedir na fuasai'r wraig ddim yn cymryd ffortiwn am fynd trwy ddrws y parlwr byth wedyn tra bu hi byw.

Byddai Owen Jones yn actio 'Robin Robaits' a 'Mari Robaits' yn y simdde reit aml.

Pan fyddai plant yn gwneud drygioni byddai rhieni yn bygwth mynd i nôl Owen Jones, Plas Gwyn, a byddai pob plentyn yn byhafio heb oedi neu redeg i guddio i rywle.

A'r hyn sydd yn hynod yw'r ffaith na fyddai byth wên ar wyneb Owen Jones.

Yr un yn union oedd Owen Jones, y cerddor, y bardd, yr adroddwr, y blaenor Methodist ag Owen Jones, y tafleisydd. Yr oedd yn ddyn praff mewn galluoedd meddyliol ac athrylith naturiol.

Y BWGAN

Yr oedd gan Owen Jones, Plas Gwyn rhyw ddylanwad rhyfedd ar bawb hyd yn oed wrth ysgwyd llaw. "Byddai ias oer o arswyd yn rhedeg rhwng y crys a'r croen

pan fyddai Owen Jones gerllaw." Yr oedd bachgen go 'ofer' yn was ym Mhlas Gwyn a cheisiodd Owen Jones feddlwl am gynllun i'w ddiwygio.

Wrth y bwrdd cinio un diwrnod dyma Owen Jones yn dweud wrth y gweision fod bwgan wedi dechrau ymddangos yn ymyl y fferm. Yr oedd yr hogyn drwg yn gwrando yn fwy astud na neb.

Un noson yr oedd Wil, yr hogyn drwg, yn dwad adref yn afreolus o'r dafarn. I ffwrdd ag Owen Jones allan. 'Roedd yn noson dywyll fel y fagddu.

Pan oedd Wil yn cerdded o dan rhyw hen goeden fawr, dyma'r oernad fwyaf ddychrynlyd glywodd neb erioed. Safodd Wil yn llonydd. dyma'r oernad yn dwad yr ail dro a disgynnodd Wil yn llipryn mewn ffit. Dyma'r bwgan yn dechrau siarad efo Wil, "Yr ydw i wedi cael fy anfon o fyd arall i dy rybuddio, os nag wyt ti yn addo byhafio y bydd raid i Owen Jones dy gosbi."

Gwaeddodd Wil, "Ydw, mi fyddaf yn hogyn da o hyn allan, am byth."

Ac fe gadwodd Wil ei air i'r diwedd!

YR WYAU A'R CYWION

Un tro yr oedd Owen Jones yn cydgerdded â gwraig i farchnad Pwllheli. Cariai'r wraig fasgedaid o wyau i'w gwerthu. Wrth deithio ymlaen, dyma rhyw sŵn bach gwan cywion ieir yn dwad o rywle. Yr oedd y sŵn yn dwad yn nes ac yn nes. O'r diwedd cyrhaeddodd fasgaid wyau'r wraig. Cododd y wraig gaead y fasged a dyma sŵn cywion ieir wedi deor yn llenwi'r ffordd. Llewygodd y wraig, taflodd y fasged i'r llawr nes oedd y wyau'n gwstard. Ar ôl i'r wraig druan ddwad ati ei hun talodd Owen Jones fwy na gwerth yr wyau iddi. Dywedodd fy nhad wrthyf ei fod yn cofio Owen Jones yn dynwared iâr a chywion newydd godi o'r nyth, a defnyddiodd ei ffon meddai fy nhad i actio codi'r iâr. Ond wrth gwrs 'doedd yna ddim yno.

EI SIARS WRTH GYFLOGI GWAS

A wnei di beidio diogi. A wnei di beidio rhegi?

A wnei di beidio defnyddio gormod o ganhwylau nos a bore?

A wnei di rwan dyngu na wnei di ddim d'engyd?


A dywad rwan wrthyf, -a wyt ti'n ddyn diwyd?

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

BETHEL

MERCHED Y WAWR – Gŵr gwadd y mis hwn oedd Mr Emyr Price o Fethel. Cafwyd noson hynod i ddifyr yn ei gwmni yn siarad am Lloyd George a'r merched yn ei fywyd. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Rita Williams, Elan, a diolchwyd i Mr Price ar ran y gangen gan Mrs A Hopcyn Evans, Gorffwysfa, Saron. Enillwyd y wobwr lwcus gan Mrs M. Griffiths, Tregof, a gofaliwyd am y te gan Mrs Sian Hughes, Cae Rhos a Mrs Gwyneth Jones, Fachell. Y mis nesaf bydd Clwb Bro Bethel yn ymuno â ni mewn Noson o Godi Cwestiwn. Estynnir gwahoddiad cynnes i'r holl aelodau hen a newydd.

EISTEDDFOD BETHEL – Penderfynwyd cynnwys cystadleuaeth deawd piano dan 9 oed yn yr Eisteddfod eleni. Dechreuir yr Eisteddfod am 12.30, bnawn Sadwrn, Rhagfyr 5, 1981 ac am chwech y nos. Pris mynediad i bob cyfarfod fydd oedolion 25c a phlant 10c.

Dyma'r dyddiadau i'r cofio: **Tachwedd 18** – Cyfansoddiadau Llên, Barddoniaeth ac Arlunio i'w cyflwyno i'r Ysgrifennydd. **Tachwedd 28** – Enwau'r cystadleuwyr ar yr adrodd a'r canu i fod yn llaw yr Ysgrifennydd. **Rhagfyr 2** – Beirniadu Gwaith Llaw a'r coginio yn y neuadd am 6. Yr holl gynnyrch i fod yn y Neuadd erbyn 5.45. Gellir cael golwg ar y cynnyrch a phaned yn y Neuadd ar ôl y beirniadu. **Rhagfyr 5** – Yr Eisteddfod.

CYDYMDEIMLO – Mae'n cydymdeimlad dwysaf â theulu dau a fu farw'n sydyn yn ystod y mis. Ar Hydref 1 yn Ysbyty Glan Clwyd bu farw Mr John Hughes, gynt o Fron Helyg ac ar Hydref 7, yn ei gartref yn 2 Post Office Row, bu farw Mr Thomas E. Hughes.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Davies, 3, Glan Llyn ar enedigaeth merch.

YR URDD – Gwerthwyd Baneri'r Urdd yn y pentref yn ddiweddar a chafwyd elw o £21.68. Mae Pwyllgor Ariannol yr Urdd yn ddiolchgar i'r casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

LLWYDDIANT WRTH BYSGOTA – Mae Dewi Wyn Jones, Cenarth, yn 13 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol y Gogarth, Llandudno. Mae'n dioddef o Spina Bifida ac yn gaeth i gadair olwyn. Mae'n cael llawer o bleser efo'i wialen bysgota ac yn crwydro'r wlad i gystadlu. Mae llawer o glybiau pysgota erbyn hyn yn trefnu diwrnod arbennig i'r anabl ac fe ddaliodd Dewi lawer o bysgod da ac enillodd ei le i bysgota dros Gymru, yn y gystadleuaeth ryngwladol a gynhaliwyd ar Lyn Brenig eleni.

Cyflwynwyd plac i bob aelod o'r tîm gan Mr Wyn Roberts AS, a hefyd enillodd Dewi yr *Autumn Trophy* yn Llangollen mewn cystadleuaeth i'r anabl.



DIOLCHGARWCH – Cafwyd gwasanaethau diolchgarwch llewyrchus iawn yn Eglwys yr ardal yn ystod y mis. Cynhaliwyd yr ŵyl yn yr Eglwys ddydd Sul, Hydref 11 ac yng Nghapel Bethel ddydd Sul, Hydref 18. Yng nghapel Cysegr cynhaliwyd yr ŵyl ar y dydd Llun traddodiadol a chafwyd cynulleidfaoedd da drwy'r dydd gyda'r plant yn cymryd rhan yn y bore, yr ieuenctid yn y prynhawn a'r oedolion gyda'r nos.

PLAID CYMRU – Nos Wener, Tachwedd 20, yn y Neuadd cynhelir noson o Hwyl a Chân yng nghwmni Gari Williams a Lleisiau'r Gweunydd. Bydd y noson yn dechrau am 7. Pris mynediad fydd 50c a 30c i blant.

DINORWIG

MARW – Hydref 5, yn Ysbyty Môn ac Arfon, yn 83 mlwydd oed bu farw Mrs Jennie Jones, Cegin, Dinorwig. Cydymdeimlir â'i hunig chwaer, Miss Martha Hughes, Lerpwl, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLIR â Mr a Mrs David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis, a'r cysylltiadau teuluol ym marwolaeth chwaer Mrs Thomas, yn Northampton yn ddiweddar.

NOSON GOFFI – Hydref 9. Yn y Ganolfan cynhaliwyd Noson Goffi er budd costau'r Ganolfan. Er gwaethaf tywydd garw gwnaed elw sylweddol.

I'R COLEG – Aeth Mr Glyn Thomas BA, 1 Bro Elidir, i wneud astudiaeth bellach yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, am radd MA, mewn Cymdeithaseg. Dymunir pob llwyddiant iddo yn y dyfodol. Yn ystod y mis clywyd ei lais ar raglen 'Seren i Seren' y BBC yn cyflwyno ei ddetholiad o recordiau pop.

I'R YSBYTY – Aeth Mr Hugh Jones, Buarth Newydd i ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth feddygol. Dymunir pob adferiad buan iddo.

DAMWAIN – Cyfarfu Mr Griffith Pritchard, Pendyffryn â llosgiadau i'w fraich a rhannau o'i gorff tra'n gwneud gorchwylion yn ei gartref. Dymunir gwellhad buan iddo.

PRIODI – Hydref 24, yng nghapel Hen Dŷ Cwrdd, Hengoed, priodwyd Miss

Marie Anne Williams, 16 The Avenue, Ystrad Mynach, â Mr John Eryl Roberts, BEd, 3 Maes Eilian, Dinorwig, mab Mr a Mrs John Roberts. Pob dymuniad da iddynt ar eu priodas.

COFION – Ein cofion cynhesaf at bawb sy'n cwyno yn yr ardal.

CODI'R FFÔN – Fore Mawrth, Hydref 20, yn y Rhaglen Codi'r Ffôn, clywyd llais Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig, yn trafod cwestiwn ar gadw mwyar duon drwy'i potelu.

GŴYL DDIOLCHGARWCH – Dros y penwythnos Hydref 18 a 19 cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch yn eglwys St. Mair, Capeli Sardis a Dinorwig. Cymerwyd rhan mewn pregethu gan weinidogion a gwasanaethau dan ofal yr ifainc ac oedolion.

CEUNANT

WEDI GWELLA – Da deall bod Mrs E. Thomas, Arwelfa a Mr W.E. Owen, Bryn Maen, yn gwella ar ôl cyfnod yn yr Ysbyty.

YN YR YSBYTY – Dymunir llwyr wellhad yn fuan i Mr E. Davies, Tan-y-Graig, sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

PRIODAS AUR – Ar ddechrau'r mis hwn bydd Mr a Mrs H. Jones, Tŷ Uchaf, yn dathlu eu priodas aur. Llongyfarchiadau iddynt.

SYR HUW OWEN

1804-188

Tybed faint o ddarlennwyr Eco'r Wyddfa sy'n gwybod rhywbeth am y dyn hynaws a dawnus hwn. Yr hyn a'm symbylodd i 'sgrifennu peth amdano yw'r ffaith i mi sylweddoli wrth ddarllen ei hanes, bod y flwyddyn hon yn gan mlwyddiant marw Syr Huw Owen, a gresyn fuasai i'r flwyddyn ddirwyn i ben heb gael rhyw fath o deyrnged iddo.

"Da wladwr duwiol ydoedd

A gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd".

Bob tro y byddaf ar y Maes yng Nghaernarfon ni allaf lai nag edrych ar y gofeb iddo – pump neu chwech o lyfrau ar ei gilydd, a llyfr yn llaw Syr Huw yn pwyso ar y pentwr llyfrau. Faint tybed o'r canoedd sy'n cerdded Y Maes bob wythnos, – hen, canol oed ac yn enwedig yr ifanc, na wyddant ddim am y dyn hwn a beth a wnaeth i beri codi cofeb iddo ar faes y dref.

Ganwyd Syr Huw Owen yn sir

Fôn mewn ffermdy rhwng Tal-y-Foel a Brynsiencyn. Y Foel oedd enw'r ffermdy. Wedi ychydig o ysgol bore oes ym Môn, anfonwyd ef i ysgol yng Nghaernarfon – Ysgol Evan Richardson a bu yno am naw mlynedd. (Ni wn ymhle yn y dref yr oedd yr ysgol hon – oes rhywun a all roi gwybod i mi?). Ta waeth, yr oedd Huw Owen yn ysgolor gwyh ac yn fachgen dymunol. Wedi cefnu ar yr ysgol ym 1825, pan oedd tua 21 oed cafodd le mewn swyddfa yn Llundain – ni fu yno yn hir iawn oherwydd iddo gael lle mewn swyddfa cyfreithiwr llwyddiannus yn Hatton Gardens gyda gŵr o'r enw Mr Vaughan Wynne Williams. Bu yno am tua deng mlynedd a chafodd gyfle i ennill llawer iawn o brofiad a gwybodaeth.

Ym 1836 pan yn 32 mlwydd oed cafodd le yn un o swyddfeydd y Llywodraeth ac yn fuan iawn dringodd i safle anrhydeddus yng ngwasanaeth y Llywodraeth. Enillodd barch ac edmygedd ac ymddiriedaeth pawb y deuai i gysylltiad â hwy oherwydd yr oedd yn gymeriad rhagorol iawn. Cymerai ran flaenllaw iawn gyda phob mudiad da yn y Brifddinas. Yr oedd mor flaenllaw gyda chrefydd ag ydoedd yn y Cylchoedd Cymdeithasol. Clywsoch am Gymdeithas y Cymmrodorion mae'n siŵr – Huw Owen a fu'n foddion i ail-gychwyn y Gymdeithas honno ym 1873. Gweithiodd yn ddiwyd dros ben i ddod â gwelliannau ynglŷn â'r Eisteddfod. Ymhob cylch y bu'n gweithio, y mae clod mawr yn ddyledus iddo. Ond am ei

ymdrechion dros addysg yng Nghymru y telir y deyrnged uchaf iddo. Llafuriodd yn ddiflino i ddod ag addysg i gyrraedd gwerin Cymru.

Ym 1843 'sgrifennodd ei 'Lythyr at y Cymry'. Anogai hwy yn hwnnw i gymryd diddordeb mewn addysg, a dyna a fu'n foddion i gael ysgolion anenwadol i blant Cymru. Sefydlodd Goleg Hyfforddi athrawon ym Mangor ac Abertawe – a thrwy ei lafur diflino y sefydlwyd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth. Cymaint oedd ei awydd am weld Cymru yn cael Prifysgol fel yr ymneilltuodd o'i swydd yn Llundain er mwyn rhoi ei holl amser i waith y Coleg. Nid oedd yn fodlon ar hyn ac aeth ati i gychwyn ymgyrch i gael ysgolion canolraddol i blant Cymru, a gweithiodd yn galed i gael ysgoloriaeth i'r plant. Ym 1880 codwyd pwyllgor dan y Llywodraeth i chwilio i mewn i addysg ganolraddol ac uwchraddol yng Nghymru. Y cadeirydd oedd Arglwydd Aberdâr a rhoddodd Huw Owen arweiniad a chynorthwy amhrisiadwy i'r pwyllgor.

Am ei wasanaeth mawr dros gael addysg i Gymru cafodd ei anrhydeddu gan y frenhines Victoria yn 1881, a'i wneud yn Syr Huw Owen, ond cyn diwedd y flwyddyn honno bu farw'r Cymro gweithgar o Fôn yn 77 mlwydd oed.

Cafodd ei gladdu ym mynwent Abbey Park, Llundain.

"Da wladwr duwiol ydoedd
A gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd".

Enid Jones
Bryn Gelli, Talysarn

Ysgol Foduro Arfon



Dysgwr Profiadol
Gwasanaeth o Ddrws i
Ddrws.

Pris Rhesymol

Taxis K.T.

Cludwyr ymhell ac agos
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Caernarfon 76105

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

LLANRUG

DIOLCHGARWCH CAPEL MAWR – Fore dydd Llun, Hydref 19, am ddeg cafwyd gwasanaeth diolchgarwch y plant. Trefnwyd y rhaglen gan y gweinidog ac ef a lywyddai y cyfarfod. Yr oedd tua 80 o blant yn bresennol a'r festri'n orlawn, rhai yn gorfod sefyll. Balch oedym o weld mamau ieuainc gyda'u plant bach a babanod yn yr oedfa. Gwnaeth y plant i gyd eu gwaith yn raenus a da. Hyfryd oedd gweld gwaith amryw o'r plant yn luniau, lego, gwaith gwau, gwnio, a choginio. Diolchodd y gweinidog i'r athrawon Ysgol Sul am eu gwaith gyda'r plant. Cyfeiliwyd gan Mrs Jones Ogwen.

CYFARFOD Y CHWIORYDD – Bnawn Llun cymerwyd y gwasanaeth gan chwiorydd yr eglwys. Y rhai a gymerodd ran oedd Nansi Roberts, Anedd Wen; Gwenda Jones, Y Wern; Helena Parry, Bryn Heli; Gwyneth Jones, Bryn Heli; Beryl Wyn Griffith, Ogwen; Meryl Williams, Moel y Wyddfa; Gwenda Roberts, Hafle; Margaret Parry, Bro Dawel a Dorothy Jones, Tegerin. Llywyddwyd gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Nos Fercher, Medi 30 am 7 o'r gloch cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nansi Roberts, Anedd Wen, a rhoddodd groeso i bawb. Daeth cynulliad da o chwiorydd ynghyd; balch oeddem o weld rhai aelodau newydd. Anfonwyd ein cofion at chwiorydd oedd yn wael ac yn methu â bod gyda ni, a diolchwyd i'r chwiorydd oedd yn methu â dod ond a anfonodd arian at y gwaith. Diolch yn fawr iddynt a phob bendith.

Trefnwyd cyfarfod prynhawn dydd Diolchgarwch gan fod y gwasanaeth dan ofal y chwiorydd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs E. Jones, Bryn Heli a Mrs M. Parry, Bryn Heli. Diolchwyd iddynt gan y llywydd Mrs Nansi Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 5, am saith, pryd y byddwn yn gwneud trefniadau at y Ffair Nadolig fydd ar Ragfyr 3.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd cyfarfod yn y Neuadd Goffa ddydd lau, Hydref 8, dan lywyddiaeth y Parch D.G. Williams. Y wraig wadd oedd Miss Mary Richards, Caernarfon; a chafwyd annerchiad diddorol ynghyd â ffilmiau ar ei hymweliad â Patagonia, yr Ariannin a Brasil. Diolchwyd gan Mrs M. Lewis, Madryn House, ac ategwyd gan Mrs K. Owen, 9 Hafan Elan. Deillir bod Mrs E. Williams, 6 Hafan Elan yn mynd i'r ysbyty am driniaeth lawfeddygol – dymunwn wellhad buan iddi.

Mae Mrs Williams, Tal-y-bont a Mrs Inigo Jones, Eifionwy wedi eu cymryd yn wael. Dymunwn wellhad buan iddynt hwythau.

Hefyd, Mrs J.M. Jones, Ger-y-Ffynnon, Tal-y-bont sydd wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ac yn gwella'n foddhaol. Dymunwyd pen-blwydd hapus i'r rhai canlynol, sef Mrs Jones, 22 Hafan Elan; Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan; Mr a Mrs I. Williams, Gwelfryn a Mrs Hughes Jones, Sŵn-y-gwynt. Dymunwn ddiolch i'r rhai oedd yn methu â bod yn bresennol yn y clwb am anfon eu cyfraniad. Rhoddwyd y te gan Mrs Jones Bodlondeb, Mrs Griffith Dolanog, Mrs C. Griffith Fronganol a Miss C.J. Roberts, Y Fron. Enillwyd y raffl gan Mrs A.M. Hughes, Bwthyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 12.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Medi 29 trefnodd Cangen Llanrug o Ferched y Wawr, noson goffi er budd peiriant i ddarganfod cancr y fron. Enillwyd y raffl oedd: Mrs Ena Jones,

Mrs L.A. Horman, Miss Cotterill a Mrs Ann Lloyd Griffith.

Diolchwyd ar ran y gangen gan y llywydd, Miss Phyllis Ellis i bawb a gyfrannodd mewn arian, nwyddau a gwasanaeth er llwyddiant y noson. Gwnaed elw o £192.

DOSBARTHU'R ECO – Owain Eilir Jones, Hafan Elan sydd yn gyfrifol rwan am werthu'r Eco o'r Llythyrdy i'r Crawia. Diolch iddo am ymgymryd â'r gwaith.

CYFARCHION PEN-BLWYDD – Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Geraint Rowlands, Llys Forgan ar ei ben-blwydd yn un ar hugain ar Hydref 30. Mae Geraint yn gweithio yn Adran Gyflogi, Y Ffiwsilwyr Cymreig yn yr Almaen, ac yn edrych ymlaen am yr Eco bob mis.

NEWYDDION HAFAN ELAN – Nos Fawrth, Medi 22, cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn y ganolfan i drin a thrafod rhai o broblemau'r stâd. Yn bresennol 'roedd y Cynghorydd Pat Larsen, Penisarwaun a'r Cynghorydd Gwyndaf Jones, Llanrug.

Aeth trigolion Stâd Hafan Elan gyda rhai perthnasau a ffrindiau am drip ddydd lau, Medi 24. Cychwynwyd ar ôl cinio i fyny trwy fwch Llanberis i Feddgelert heibio Aberglaslyn i Borthmadog lle arhoswyd am ysbaid i gael cipolwg ar y siopau yna ymlaen i Lanystumdwy lle 'roedd pryd ardderchog wedi ei ddarparu ar eu cyfer yng nghaffi Gwyndy.

Diolchwyd i'r trefnyddion, sef yr ysgrifennydd, Miss M.I. Rowlands, Cilmeri; Is-ysgrifennydd, Mr E. Cilmeri, Rhif 9 a'r trysorydd, Mr R.G. Jones, Rhif 13 gan Mrs D. Jones, y Warden.

Nos lau, Hydref 8, bu Mrs J. Roberts, Glan Dŵr, Brynrefail yn dweud hanes ei hymweliad â Llydaw trwy gyfrwng sgwrs a sleidiau.

Croesawyd y wraig wadd yn gynnes gan Miss M.I. Rowlands, Cilmeri a diolchwyd iddi gan Mrs E.F. Williams, rhif 16 ac ategwyd gan M.M. Williams, Rhyd.

Darparwyd te gan Mrs D. Jones, rhif 19, Mrs K. Griffiths, rhif 20 a Mrs L. Jones, rhif 22. Diolchwyd iddynt gan Mr E. Owen, rhif 9.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso gartre o'r ysbyty i Mrs B. Jones, Rhif 11.

YN YR YSBYTY – Dymunir adferiad llwyr a buan i Mrs N. Williams, Rhif 6 sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

Talodd Mr Oswyn Rees a Mr Chris Brown o adran Gweithwyr Cymdeithasol Bangor ymweliad â'r ganolfan fore Mercher, Medi 30 i gael cwpaned o goffi a sgwrs gyda'r trigolion. Mwynhawyd eu cwmni yn fawr gan bawb.

DAWNS – Cynhaliwyd Dawns Hen Amser ym mis Medi er budd Eglwys Sant Mihangel, a chafwyd ymateb da iawn. Dymuna'r Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb a gyfrannodd at wneud yr ymgyrch yn llwyddiant.

RHODD I EGLWYS SANT MIHANGEL – Derbyniwyd rhodd o gan punt gan deulu'r ddiweddar Mrs Laura Davies, Bryn Derwen i brynu rhywbeth angenrheidiol at wasanaeth yr Eglwys i gofio am Mrs Davies. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig penderfynwyd prynu blwch i ddal Bara'r Cymun. Yr ydym fel Eglwys yn ddiolchgar dros ben i deulu Mrs Davies am y rhodd hon. Yr oedd Mrs Davies yn un o aelodau ffyddlonaf yr Eglwys ar hyd y blynyddoedd.

UNDEB Y MAMAU – Agorwyd tymor 1981-82 o waith Undeb y Mamau gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel. Y Rheithor oedd yn arwain y gwasanaeth ac ef hefyd oedd yn rhoi'r annerchiad. Wedi'r gwasanaeth

bu cyfarfod yn y Rheithordy gyda Mrs Williams yn llywyddu. Caed adroddiad o'r gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd yn Llandudno gan Mrs Williams a Mrs Pierce, Glan'rafon. Y gwesteion oedd Mrs Pierce Glan'rafon a Mrs Williams, Y Rheithordy a diolchwyd iddynt gan amryw o'r aelodau.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF – Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Mihangel ddydd Sul, Hydref 11 a dydd Llun, Hydref 12 a chaed tywydd tymhoraidd a chafwyd cynulleidfaoedd da iawn. Y Rheithor a weinyddodd yr Offner yn ngwasanaethau bore dydd Sul ac ef hefyd a arweiniodd wasanaeth y plant brynhawn dydd Sul. Bu i holl blant yr Ysgol Sul gymryd rhan ac fe ddarllenwyd y llithiau gan Gwawr Owen, Rhos Elan; Nia Wyn Jones, Rhandirmwyn; Llinos Davies, Bod Awel ac Alan Jones, Dyffryn, Bryn Moelyn. Y Parch Ganon R. Glyndŵr Williams, Porthaethwy oedd yn arwain y gwasanaeth ac yn pregethu yng Ngosber nos Sul a chafwyd gwasanaeth graenus iawn. Y Parch Ganon Alun Jones, Rheithor Llanberis a Deon Gwlad Arfon oedd y pregethwr gwadd nos Lun, a chanwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Yr organydd yn yr holl wasanaethau oedd Mr J.T. Morris, Erw Wen. Addurnwyd yr Eglwys yn hardd iawn ar gyfer yr Ŵyl ac fe rannwyd ffrwythau a llysiau i'r oedhonnus ac i'r cleifion ac fe aed â rhoddion y plant i Blas Pen Gwaith, Llanberis. Y mae'r Rheithor a'r Wardeiniaid yn ddiolchgar i bawb am eu cymorth ac am eu rhoddion.

CASGLIAD Y DEILLION – Yn ddiweddar bu casglwyd yn mynd o amgylch yr ardal i gasglu at Gymdeithas y Deillion ac fe fu ymateb boddhaol iawn unwaith eto i'r ymgyrch a chasglwyd y swm o £135.20 fel a ganlyn:
Mrs E.L. Jones, Lyndale a Mrs S. Roberts, Meifod: £17.65. Miss Gwennie Griffiths, Cartreflan, Tai Disgwyllfa: £6.18. Mrs Ceinwen Roberts a Mrs K. Pritchard, Tanycoed: £20.46. Mrs D.G. Williams, Y Rheithordy: £19.34. Mrs T. Jones, 6 Rhos Rug: £14.95; Mrs Roberts a Mrs Hughes, 13 Rhos Rug: £7.45. Mrs R. Rowlands, Talafon, Cwm y Glo: £11.60. Mrs Morris, Gwenmon a Mrs Owen Rhos Elan: £14.67. Miss C.J. Roberts, Y Fron: £22.90.

Dymuna'r Rheithor ddiolch i'r casglyddion am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith da hwn bob blwyddyn ac fe ddiolchir hefyd i'r cyhoedd am eu hymateb boddhaol bob amser.

I'R YSBYTY – Deallwn bod Mrs R.J. Owen, Glasdy, wedi ei chymryd i'r ysbyty ym Mangor ac eiddunwn iddi adferiad llwyr a buan.

YR URDD – Gwerthwyd Baneri'r Urdd yn y pentref yn ddiweddar, a chafwyd elw o £59.66. Mae Pwyllgor Ariannol yr Urdd yn ddiolchgar i'r casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Ponrhythallt – Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor nos Fawrth dan lywyddiaeth y Parch W.O. Roberts. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr I.B. Griffith a gymerodd fel ei destun 'Hel Steddfoda'.

Daeth cynulliad da ynghyd i gychwyn y tymor, da oedd gweld aelodau o'r newydd yn ein plith, mae croeso i unrhyw un ymaelodi.

Croesawyd yn arbennig y Parch Erfyl Blainey sydd bellach yn gofalu am Eglwys Hermon.

Talwyd y diolchiadau gan Mr T.W. Thomas.

GŴYL DDIOLCHGARWCH – Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul a nos Lun ym Mhonrhythallt. Gwasanaethwyd y bore a'r hwyr gan Mr Bryn Williams, Tan y Gaer, un o blant yr eglwys, sydd ar ei flwyddyn olaf cyn dechrau ei weinidogaeth ar Ynys Môn.

Y plant oedd yn gwneud eu rhan yn y prynhawn daethant â'u rhoddion o flodau, llysiau a ffrwythau. Darparwyd hwy gan athrawon yr Ysgol Sul a chafwyd annerchiad gan y Parch W.O. Roberts.

Rhannwyd y cynnyrch i'r henoed yn yr eglwys. Nos Lun cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi.

EISTEDDFOD LLANRUG – Mae prysurdeb mawr yn cyrraedd ei benllanw yn yr ardal y dyddiau hyn a phlant Llanrug yn brysyr yn ymarfer ar gyfer y diwrnod mawr. Bydd seremoni'r cadeirio eleni yn achlysur lliwgar gyda disgyblion ysgol Uwchradd Brynrefail yn gofalu am y ddefod a phlant ysgol gynradd y pentref yn perfformio dawns flodau arbennig.

Mawr hyderir y bydd yr ardalwyr yn heidio i'r ŵyl ar y 7ed o Dachwedd.

LLONGYFARCHIADAU calonnog I lan Pierce, Sŵyn yr Awel ar ei benodiad diweddar yn bennaeth ysgol, gynradd Beddgelert. Bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau newydd ym mis Ionawr.

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Ann Thomas, Gwenallt, ar ei phenodi i swydd Dirprwy Rheolwr-Llawr gyda'r BBC yn Llandaf, Caerdydd.

PWT O GÂN

CRAIG YR UNDEB

Hen randir cewri'r Undeb, – a llwyfan
Lle bu llef uniondeb;
Yma'n trin eu trychineb
Bu eofn ŵyr heb ofn neb.

Morris D. Jones

Y CHWARELWR

Cawr a egyr y creigiau – yw'r hwylys
Chwarelwr difoethau;
A dyn gwlad wna do yn glau
I lysoedd a phalasau.

Morris D. Jones

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: PADARN 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

LLANBERIS

MRS SIÂN THOMAS, TŶ'R YSGOL – Mae meddyliau pob un ohonom yn nhim yr Eco efo Siân ar hyn o bryd, a hithau yn yr Ysbyty Frenhinol yn Lerpwl. Pob bendith i ti Siân, a brysia adre i Lanbêr unwaith eto. Cofiwn yr un pryd am ffyddlondeb di-flino ei gŵr Alwyn, ac am ei mam, sydd wedi bod yn gyfaill mor dda i ninnau ar yr Eco. **Gol.)**

CYFARFOD DERBYN – Nos Sul, Hydref 4, fe gynhaliwyd gwasanaeth undebol arbennig yn y Capel Coch, i dderbyn deuddeg o bobl ifainc yn aelodau cyflawn yn eglwys Capel Coch, Gorffwysfa a Phreswylfa.

Dyma'r deuddeg: Debra Elis, 7 Rhes Efrog; Eleri Elis, 12 Rhes y Cae; Alwyn Evans, 15 Stryd Fawr; Eifion Evans, Cynlas, Stryd Fawr; Owain Griffiths, Llwyn Piod, Ffordd Tŷ Du; Maldwyn Hughes, 1 Stryd Yanci; Dilys Jones, 27 Dôl Elidir; Elaine Jones, Plas Coch, Stryd Fawr; Rhian Owen, 15 Stryd Siarlot; Rhys Owen, 50 Dôl Elidir; Carol Parry, 6 Stryd Bethesda; Amanda Sellers, Hafan, Rhes Olgra.

Ar ôl eu derbyn fe wahoddwyd pawb i gymuno. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Marcus Wyn Robinson a Huw John Hughes.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Ein gwraig wadd ym mis Medi oedd Mrs Ann Griffiths pennaeth Cangen Caernarfon o'r *Citizen's Advice Bureau* ac yr oedd yn agoriad llygad i ni wybod am y gwaith y mae'r sefydliad yma yn ei wneuthur yn rhad ac am ddim. Yr oedd Mrs Griffiths yn cymell pawb efo unrhyw fath o broblem i alw i mewn i'r swyddfa yn Stryd Llyn, Caernarfon.

Bu'n rhaid cydymdeimlo unwaith eto ag amryw o'n haelodau sydd mewn profedigaeth. Y mae Mrs Ethel Jones, Maes Padarn, wedi colli ei hannwyl fam, a Mrs Beti Humphreys, Mrs Dorothy Williams, Mrs Nan Owen a Mrs Betty Arfon Owen wedi colli perthynas, sef Mrs Mair Owen, Dôl Eilian.

Yr oeddem yn falch o weld Mrs Martha Hughes wedi troi i fewn ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty, ac yr ydym yn gobeithio y bydd hi yn dal i wella.

Cafwyd adroddiad cryno a diddorol gan Mrs E. Howdle ar ei hymwelïad â Chyfarfod Blynnyddol Sefydliad y Merched yn Neuadd Albert ym mis Mehefin, a diolch yn fawr iddi am fod mor barod i'n cynrychioli ers sawl blwyddyn bellach.

Diolchwyd hefyd i Mrs Glenys Jones am ofalu am y trip i Landudno a Theatr yr Arcadia.

MYND I'R AMERIG – Dewiswyd Maldwyn, mab Mrs Jane Jones a'r diweddar Roli Lloyd, Peris View i fynd i'r Amerig gyda rheolwyr eraill o Gwmni Morris & Jones, Caernarfon, i astudio ffurfiau modern mewn busnes. Mae Maldwyn yn gysylltiedig â'r Cwmni yma ers blynnyddoedd, wedi iddo adael Llythyrdy Brynrefail, ac yn byw ar hyn o bryd ym Mhwlheli. Dymunir iddo bob llwyddiant.

UNDEB Y MAMAU – Ar Hydref 6, cyfarfu aelodau Undeb y Mamau Eglwys Sant Padarn a Sant Peris dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Gwir fwynhawyd adroddiad o'r Gynhadledd Flynyddol a gynhaliwyd yn Llandudno gan Miss Catherine Gillespie. Diolchwyd iddi gan Mrs Eric Owen a Mrs Dennis Hughes.

ANGEN CANOLFAN I'R IEUENCTID – Ar Hydref 6, cyfarfu rhai o'r ardalwyr yn Festri Gorffwysfa dan lywyddiaeth y Parch Marcus Robinson i geisio creu diddordeb yn yr ardal i godi canolfan ar gyfer chwaraeon i'r bobl ifanc, a hefyd i ystyried a fyddai yn bosibl pwrcasu Capel Gorffwysfa a'r adeiladau perthynol iddo. Ar ôl

trafodaeth hir yn dilyn eglurhad y pwrpas o alw'r cyfarfod gan Mrs Gartside, y fferylllydd lleol, cynigiodd Mr John Hugh Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn y byddai'n fantais gohirio'r cyfarfod er cael gwell cynrychiolaeth o'r ardalwyr. Gofynnwyd i Mr Gartside am mai ef oedd wedi galw'r cyfarfod y noson honno, anfon llythyr i swyddogion yr holl fudiadau lleol yn erfyn am gynrychiolaeth i'r cyfarfod nesaf.

£225 I GRONFA'R CANCR – Cyfrannwyd y swm o £225 tuag at Gronfa'r Cancr gan deulu a chyfeillion y diweddar Edwina Lloyd Jones. Mawr yw diolch y teulu i bawb am eu haelioni.

CLWB YR HENOED – Ar Hydref 15 cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Clwb yr Henoed dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Cafwyd adroddiad gyflawn iawn o weithgareddau'r flwyddyn gan yr ysgrifennydd, Miss Ann Jones, a darllenwyd y fantolen gan Mrs Gwyneth Clark. Llongyfarchodd y llywydd y swyddogion am eu hadroddiadau ffafriol iawn a dywedodd fod angen llongyfarch bob un o aelodau'r pwyllgor am eu gweithgarwch a'u ffyddlondeb hwy oedd yn sicrhau llwyddiant y clwb. Penderfynwyd eto eleni ddathlu Wythnos yr Henoed drwy anfon rhodd ariannol i holl aelodau'r clwb. Bydd aelodau'r pwyllgor yn dod o amgylch yr aelodau i ddosbarthu'r rhodd yn ystod yr wythnosau nesaf yma.

Deallwyd fod prysurdeb mawr ymysg yr aelodau ar gyfer yr arwerthiant blynnyddol a gynhelir ar Dachwedd 20 pryd y disgwylir cefnogaeth yr ardal, oherwydd dyma'r unig dro yn ystod y flwyddyn yr apelir am gefnogaeth.

SIANEL 4 – Llongyfarchiadau'r ardal i Emllyn, mab Mrs Cassie Davies a'r diweddar Gwilym Davies, Dôl Elidir ar ei benodiad yn Gomisiynydd Sianel 4. Ar hyn o bryd mae'n olygydd Rhaglenni Radio Cymru, y rhaglenni poblogaidd gan yr hen a'r ifanc. Ardderchog iawn yw clywed am fechgyn o'r ardal yn llwyddo yn eu cylch eu hunain. Pob lwc i chi Emllyn – dyma ddymuniad ardalwyr Llanberis i chi.

COLLI MAM – Cydymdeimlir ag Ethel, priod Richard Jones, Maes Padarn, ar golli ei mam. Cartrefai yn Llanrug hyd yn ddiweddar pryd y gorfu iddi oherwydd llesgedd, symud i'r ysbyty.

PRIODI – Llongyfarchiadau i Arwel mab Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch ar ei briodas ag Alice – merch Mr a Mrs Jones, Ffordd Clynog, Penygroes. Byddant yn ymgartrefu ym Mhenygroes.

YN YR YSBYTY – Mae amryw o'r trigolion lleol yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Dymunir iddynt oll adferiad buan fel y cânt ddychwelyd gartref. Yn Ysbyty Môn ac Arfon mae William Roberts, Stryd Goodman; Mrs Margaret Jones, Y Fflatiau; Mrs Roberts, Arfryn; hefyd ei mam Mrs Sarah Jones, Bryn Teg. Yn Ysbyty Royal, Ward 9A, Lerpwl, mae Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol.

CANLYNIADAU'R COLEG TECHNOL – Eto, eleni mae'r bechgyn lleol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr arholiadau yn y Coleg Technol ym Mangor: Ian Roberts, mab Mr a Mrs Tecwyn Roberts; Robert James Jones, Elidir View; Keith Morris, Rhes Fictoria a Robert Hugh Owen, Maes Padarn.

TAID A NAIN – Llongyfarchion i Doctor Dan a Mrs Hughes ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Hefyd Beti a Hawen Roberts, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Mae Buddug eu merch, sydd yn byw yn Cesarea, wedi

cael mab bychan. Wrth gwrs, bydd Mrs Dilys Roberts, Dakota yn hen nain unwaith yn rhagor.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â'r trigolion hynny sydd wedi cael profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Mrs Mair Sherrington.

Ar ddechrau'r mis daeth gwybodaeth am farw Mrs Mair Sherrington yn yr Ysbyty yn Lerpwl ar ôl gwaeledd hir a phoenus yn 72 oed. Un o blant yr ardal ydoedd Mair, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Robert Thomas Jones, Stryd-y-Dŵr, ac yn un o deulu mawr. Bu'n gwasanaethu yn Lerpwl ac yno priododd a chafodd ddau fab. Wedi'r rhyfel diwethaf dychwelodd i Gymru, a phrynu busnes yn Neiniolen. Nid hir fu ei gyrfa yno oblegid bu farw ei phriod yn oderthal o sydyn. Symudodd hithau yn ôl i'r ardal a chartrefu yn Stryd y Dŵr. Ond collodd ei hiechyd a gorfu iddi symud at un o'i meibion. I Lerpwl at David, y mab ieuengaf yr aeth, ac yno y bu hyd ei symud i'r ysbyty. Cydymdeimlir â'r ddau fab Emllyn a David, hefyd ei chworiydd – Miss Margaret Jones, East Lynne, Mrs Betty Williams, Stryd y Dŵr, Mrs Lottie Jones, Corby a Mrs Edna Jones, Maes Padarn, ei dwy chwaer yng nghyfraith, hefyd ei brodyr, Richard sydd yn yr Amerig, David a leuan sydd yn Kettering.

Dymuna'r teulu ddiolch i Mr Phil Williams (gynt o Tal-y-Don) am ei garedigrwydd yn cludo Mrs Lottie Jones yn ôl a blaen i Corby.

Edwin Phillips

Brawychwyd y gymdogaeth pan ddaeth cymdogion o hyd i Edwin Phillips (68 oed) yn farw yn y gadair yng nghegin ei gartref. Edrychai mor iach ac mor heini, ni wyddys fod unrhyw nam arno. Cymeriad hynod o ddymunol ydoedd, wedi ei fagu yn yr ardal, ac wedi priodi geneth o'r ardal – Alice Enid. Bu ei yrfa yn y fyddin ac ymddeolodd fel Uwchgaptan gyda Catrawd Manceinion. Bedair blynedd yn ôl dychwelodd i'r ardal, (bu ei briod farw ychydig flynyddoedd yng nghynt) a chafodd gyfle i wneud cartref bach cysurus iddo ei hun yn Rallt Goch. 'Roedd yn fawr ei barch gan ei gymdogion yn barod ei gymwynas bob amser, ac yn gymydog tawel a charedig. Bu'r gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa ym Mangor gyda'r Canon Alun Jones a'r Parchedig Ivor Philips, Corwen yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r chworiydd yn eu colled – Mrs Nellie Roberts, Noddfa, Mrs Ceridwen Owens, Maes Padarn, a Mrs Katie Roberts, Caernarfon.

Jim Lee.

Brodor o Lerpwl ydoedd Jim Lee, a ddaeth i'r ardal amser y rhyfel diwethaf, a gwneud ei gartref gyda'i briod a'i dad yng nghyfraith, Mr Wallinger, yn Stryd Goodman. Pan ddymchwelwyd tai Stryd Goodman aeth ef a'i briod i Stryd Siarlot. 'Roedd ei farwolaeth yn sioc fawr i'w briod, oherwydd iddo ddisgyn yn farw tra yn dilyn ei orchwylion. Bu'r gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa ym Mangor gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu.

Mrs Myfanwy Jones.

Er mai ym Mhenygroes y bu farw Mrs Myfanwy Jones, carwn feddwl fod gan Llanberis a'r cylch gyfraniad mawr yn ei bywyd. Magwyd hi yn Ninorwig, a phriododd ag un o fechgyn yr ardal – Evan, Evan Pylla Dŵr. Bu yn byw yno am flynyddoedd lawer, ac yno yr erys am amser ar ôl colli ei phriod. 'Roedd yn gymeriad hynod o fywiog, yn cerdded yma ac acw hyd y mynyddoedd. byddai yn cerdded i fyny i Ddinorwig at ei mam hwyrach ddwywaith y dydd. Anifeiliaid ac adar a'r awyr agored oedd ei diddordebau. Un mab oedd ganddi, sef Richard ac 'roedd yntau pan yn fachgen yn adnabod y clogwyni a'r mynyddoedd.

Cydymdeimlir â Richard ei mab, yn

ei brofedigaeth.

DIOLCH – Dymuna teulu'r ddiweddar chwaer Mrs Elizabeth Jones, 12 Stryd y Ffynnon, Llanberis, ddiolch i Feddygon Waunfawr; Y Weinyddes, Caernarfon; Trefnydd Angladdau – Mr M. Pritchard, Llanberis; Y Parchedig Marcus Robinson (nai); Ffrindiau a Chymdogion, am bob cymorth, mynegiant o gydymdeimlad a chymwynas a gafwyd ar achlysur trist o golli mam annwyl a nain hoff.

Teulu, Y Fedwen, 8 Ffordd Bethel, Caernarfon.

CLWB Y METHEDIG – Cynhelir arddangosfa yn Llundain bob blwyddyn gan Gymdeithas yr Anabl, ac yno dangosir y cynnyrch gwaith llaw gorau o bob cwr o'r wlad. Eto eleni, mae Clwb Eryri wedi dangos medr anghyffredin. Derbyniwyd gwaith tair aelod o'r clwb, sef Mrs Griff Owen, Maes Padarn wedi gwneud clustog glytwaith; Mrs Peris Thomas, Dôl Eilian; – hithau wedi gweu siôl, a Mrs Katie Williams, Derwen Deg wedi gwneud Tegan Meddal. Ardderchog iawn yn wir, a mawr fu pleser rhyw 40 o aelodau o'r cylch yn cael trip i Lundain i weld yr arddangosfa a chael cinio gyda'r Maer a'i wraig, a'r Uchel Strydd a'i wraig. Cawsant groeso tywysogaidd a chroeso nac anghofiant yn fuan iawn, ac wrth gwrs, hwy! anfarwol yng nghwmpeni difyr a doniol Katie Williams, Derwen Deg, a aeth yn syth o ysbyty Minffordd i Lundain gyda'i chyfeillion.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH – Cynhaliwyd cyfarfodydd o ddiolch ym mhob eglwys leol yn ystod y dydd Sul a'r dydd Llun. Fel arfer 'roedd Eglwys Sant Padarn wedi ei haddurno yn odidog gan rai o aelodau'r eglwys. Bnawn Llun, yn Festri Capel Coch gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Robinson yn arwain, cafwyd cyfarfod arbennig gyda Leisiau Eryri dan arweiniad Mrs Ann Pritchard yn canu yn swynol iawn. Cafwyd rhan yn y rhaglen o ddiolch gan y plant hynaf a pharti o rai bach.

YR URDD – Gwerthwyd baneri'r Urdd o amgylch y pentref yn ddiweddar, a chafwyd elw o £68.10. Mae Pwyllgor Ariannol yr Urdd yn ddiolchgar iawn i'r casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

I GOLEG – Pob dymuniad gorau i Anwen Owen, merch Mr a Mrs Ernest Owen, Rhes Efrog ar ddechrau ei chwrs yn y Coleg Normal, Bangor.

CYNORTHWYO'N WIRFODDOL – Mawr iawn yw edmygedd yr ardal o Kevin Owen, 43 Dol Elidir, Anwen Owen, 8 Rhes Efrog a Dafydd Pritchard 4 Stryd Fawr am iddynt gynorthwyo'n wirfoddol yng Ngwersyll Llangrannog yn ystod wythnos yr Anabl.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Y MAB DAROGAN

gan Gwmni Eisteddfod Maldwyn yn

THEATR SEILO NOS WENER a NOS SADWRN TACHWEDD 6 a 7

Oedolion £1.50 Plant £1.00

Cysyllter â Mr Derfel Gruffydd, yn Ysgol Gynradd, Llanrug am fanylion pellach.

SIBRYDION O'R YSGOLION

DAWSIO NODDEDIG – Ar ddechrau'r mis cynhaliodd y 6ed dosbarth Ddawnsio Noddedig yn yr ysgol. Cafwyd ymateb hynod lwyddiannus a bydd y disgyblion yn defnyddio'r arian i drefnu Parti Nadolig i blant Ysgol Pendalar. Diolch i bawb am eu haelioni.

NOSON GOFFI LWYDDIANNUS – Nos iau 15 o Hydref cynhaliodd noson goffi yn yr ysgol. Agorwyd y noson gan y Cynghorydd Francis Jones, Llanberis a gwnaethpwyd elw o £427.10. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

GWLITH – Yn ystod y mis daeth Naomi Jones (Bilidowcar) i'r ysgol i roi cyfweiliad i'r grŵp pop addawol 'Gwlith'. Bydd y genod, sef Lynne Jones, Rhian Owen, Sian Gibson, Ruth Lennon, Nia Pritchard Jones a Iola Llywelyn, yn recordio yn stiwdio'r Awr Fawr cyn y Nadolig. Edrychwn ymlaen am eu gweld ar y teledu'n fuan wedyn.

COFIWCH – hefyd bydd ymgyrch gwerthu recordiau Cymraeg yn dechrau yn yr ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf.

6ed DOSBARTH – Yn ystod y mis cafodd y 6ed dosbarth ddarlith yn yr ysgol gan y Dr Williams o Adran Gymdeithaseg, Coleg Prifysgol Bangor.

Hefyd bu aelodau o'r 6ed dosbarth yn Ysgol Dyffryn Nantlle yn gwrandao ar ddarlith gan yr awdures enwog Jane Edwards.

THEATR GWYNEDD – Yn ystod y mis bu aelodau o'r bumed flwyddyn yn gweld drama enwog William Shakespeare 'Nos Ystwyll' yn Theatr Gwynedd.

'ORIENTEERING' – Aeth nifer o ddisgyblion o'r ysgol, yng ngofal Mrs

Noreen Manning, i goedwig Penmachno i ddysgu'r grefft anodd hon. Cafwyd diwrnod prysur iawn yn y goedwig a gobeithir y bydd diwrnod tebyg yn cael ei baratoi eto yn y dyfodol agos.

YR URDD – Yn ystod y mis cynhaliodd cyfarfod croeso i aelodau newydd yr Urdd yn yr ysgol. Cafwyd gemau a lluniaeth ysgafn yn y cyfarfod ac yn wir roedd tipyn o waith paratoi ar ei gyfer gan fod 150 o aelodau yn yr ysgol erbyn hyn.

DAWSIO YN EGLWYS GADEIRIOL BANGOR – Bu grŵp dawns yr ysgol yn perfformio o flaen Archesgob Cymru, yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor, yn ystod y mis. Rhan o weithgareddau Gŵyl Dderbyn Ieuencid Gwynedd oedd y ddawns a berfformiwyd. Enw'r ddawns oedd 'Y Temptiad a'r Cread' gyda Sian Jones fel Duw, Brigid Hughes fel Adda, Gwyneth Evans fel Efa a Melanie Sellars fel y Diafol. Dysgwyd y genethod gan Mrs Marjorie Wroe.

PÊL-DROED – Cafodd Steven Owen (Cwm-y-pglo) ei ddewis i chwarae i dîm ysgolion Gogledd Cymru yn erbyn Ysgolion Lerpwl. Cyfartal oedd y sgôr – 2-2.

Mewn twrnament pêl-droed i ysgolion Arfon ym Mhwlheli fe ddaeth tîm dan 15eg oed yr ysgol yn ail i ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

Pêl-droed yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle – Dan 13eg cyfartal 4-4; Dan 15eg ennill 5-1; Bechgyn Hŷn colli 4-0.

Yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen – Dan 13eg ennill 5-0; Dan 15eg ennill 3-2; Bechgyn Hŷn ennill 7-0.

Mae Malcolm Allen (Deiniolen), Iwan Pritchard (Nant Peris), Kevin Jones (Dinorwig) a Steven Owen

YSGOL TAN-Y-COED, PENISARWAUN 1937



Diolch i Miss Elinor Jones, 2 Bron y Waen, Penisarwaen am y llun. Dyma'r enwau: Eric Jones; Elinor Jones; Eirlys Jane; Gweneth Ellis; Rhianon Ffoulkes; Catherine Humphreys; Kate May Evans; Morwena Jones; Olwen Humphreys; Kate Ellen Jones; Thelma Jones; Arvon Jones; Eirlys Jones; Jean Roberts; Gwyneth; Heulwen Evans; Christine Williams; Idris Roberts; Aled Jones; Alun Jones; Arthur; Idris Hughes; Gruff Thomas; Gwenlyn Parry; Evan Wyn Jones; Hugh Jones.

(Cwm-y-glo) wedi eu dewis i chwarae i dîm ysgolion Arfon.

SGÏO – Ym mhencampwriaeth sgïo ysgolion gogledd Cymru gwnaeth yr ysgol yn arbennig o dda. Enillodd yr ysgol y tarianau am fod yn fuddugol mewn dwy adran, sef y darian ganolraddol (dan 15eg) a'r darian iau (dan 14eg).

Ym mhencampwriaeth Clybiau Cymru ym Mhontypŵl cafodd 4 o blant yr ysgol ganlyniadau ardderchog. **Genethod** – Kirsty McCann – 1af dan 13eg, Rubina McCann – 2il dan 15. **Bechgyn** – Christopher Lloyd – 3ydd dan 18; Timothy Lloyd – 3ydd dan 15.

DYDD BANERI'R URDD


Wrth ddarlennu trwy golofnau newyddion y pentrefi mi fyddwch yn sylwi ar newyddion am ddydd Baneri'r Urdd. Roedd yr ymgyrchoedd yn y pentrefi yn rhan o un ymgyrch arbennig yng nghylch Eryri i sicrhau elw i'r Urdd er mwyn lleihau ychydig ar broblemau ariannol y mudiad. Diolch i ymdrechion lluo o gasglyddion yn y pentrefi, a chefnogaeth hael pobl y fro, cyfrannwyd yn sylweddol o fro'r Eco tuag at elw i gylch Eryri o fwy na £400. Mae Pwyllgor Ariannol y cylch yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cymorth.

ALUN GLYN JONES

(Wetton a Thomas)

14 Ffordd Garth, BANGOR. Ffôn: 53705

(ochr draw yr orsaf bysiau)




DEWIS DA

PRISIAU TEG

STAFF PROFIADOL

Dowch i'n gweld, mi gewch groeso mawr yn awyrgylch gartrefol y siop, a phob sylw gan Alun Glyn a'i staff.



CARPEDI

Gostyngiad sylweddol am arian parod
Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd
lle bo ansawdd yn cyfrif

LLENNI



MOTOR BEICS Y WAUNFAWR

Sawl motor beic sydd yn y Waun heddiw, tybed? Chwe blynedd a deugain yn ôl yr oedd 24 neu ragor ohonynt yn taranu ar hyd a lled yr ardal. Y dydd o'r blaen, wrth chwilita am rywbeth, deuthum ar draws 'Cerdd y Motor Beics' mewn hen lyfr nodiadau. Fe'i cyfansoddwyd fel dilyniant o gerdd o waith Tom Williams, Garreg Fawr, a gyfansoddwyd ganddo rhyw ddwy neu dair blynedd cyn hynny ar yr un testun. Fe'i canwyd gan Tom Williams ar yr alaw 'Dowch i'r Americ-a' mewn Cyfarfod Llenyddol yn Ffestri'r Waun ym Medi 1935. Ond daeth to newydd o ddeudodwyr a galw am gân 'yp tw dêt'.

At ddiwedd y tri degau fe leihodd y motor beics yn gyflym gan wneud lle i'r moduron - Ford 8 a Morris 8 gan amlaf. B.S.A., Triumph, Ariel, A.J.S. a Nortons oeddent bron i gyd. 'Doedd dim sôn am Honda, Yamaha, a Suzuki yr adeg honno! Credaf mai tua hanner y rhai a enwir sy'n fyw heddiw. Hwyrach y daw'r gân ag atgofion iddynt hwy ac eraill sy'n cofio'r cyfnod hwnnw pan oedd y motor beics mewn cymaint bri.

Mae llawer un ohonoch

Sy'n eistedd yma'n awr
Yn cofio'r gerdd a ganwyd
I fotor beics Waunfawr;
Ond heddiw yn yr ardal
Mae reidars newydd sbon,
Ac mae yr hen beirianau
Yn bentwr yn 'Lle Non'.

Pa le mae'r perchenogion
Oedd yn y ganig lon?
Mae meddwl am eu tynged
Yn codi arswyd bron
Drwy gario y genethod
Eu cariad aeth yn fflam
A rhaid oedd gwerthu'r deurod
Er mwyn cael prynu pram.

Yn awr mi geisaf enwi
Y rhai sy'n dal i fynd,
Os llithra rhywun allan
O maddau imi ffrind.
Dechreuaf gyda'r 'Cotton',
Ni fu gwell beic erioed,
Ac ni all neb ei reidio
Mor fedrus â Wil Lloyd.

Ymlaen at Morris Hughie
A'i 'Ariel' bychan del,
Y 'chromium tank' yn sgleinio,
Mae hwn yn feicyn swel.
A beic sy'n dal i redeg
Yw A.J.S. Wil Gray,
A William Richard hefyd
Sy'n reidio B.S.A.

Mae beic yng Ngwyrfa Terrace
A'i berchen ydyw John,
Sef 'Overhead Montgomery'
A brynodd yn 'Lle Non'.
Ac A.J.S. yn Clechydd
Sy'n mynd bob gyda'r nos
A Gwyrfa yn ddidrafferth
I weld ei eneth dlos.

Daeth cyfnewidiad garw
Dros reidars Allt Coed Mawr,
Lle gynt 'roedd tri neu bedwar
'Does yno 'run yn awr.
Am A.J.S. 'rhen Bitar
Mae wedi gwneud ei ran,
A heddiw gwneir y caru
Mewn Austin motor fan.

Ar gefn y 'Brough Superior'
Ceir gweled Harri Wyn,
Ysgwn-i beth ddaeth drosto
I fentro beic fel hyn?
Mae 'Panther' yn Rhwngddwryd,
Ac 'Ariel four-speed-gear'

Fe gipia John yn sydyn
I'w borfa yn Llanbêr.

Bu Arthur Pant y Cerrig
Yn reidio A.J.S.
Paham 'roedd yn ei werthu? -
Mae gennyf eitha 'guess'!
Ac 'Ariel' Bob Pen Gelli,
Hen beiriant Ffred Llanrug,
A B.S.A. hynafol
Gan 'Gwyrfa' Hafod Rhug.

Gadewais Bant y Cerrig
Heb roddi 'full report',
Anghofiais Wil a'i 'Raleigh'
Sy'n 'overhead twin-porte'.
Ond rhaid mynd am y Groeslon,
Mae yma eto griw,
A'r cyntaf un gaf enwi
Yw 'Ariel' Dei Pen Rhiw.

Richard Jones, Cae Trefor,
Yn wr o brofiad maith,
Mae ganddo 'Norton side-valve'
I'w gludo at ei waith.
Ac Evan, yntau hefyd
Sy'n cadw 'Norton cry'
I'w gario o bob siwrne
Yn saff at ddrws y tŷ.

Ym Mhen Dŵr Oer mae Owen,
A 'Cotton' yw ei feic;
Mae'n mynd a dod yn hwylus
Heb fygwth mynd ar streic.
A 'Triumph' Gwilym Bryngwyn,
Os yw yn mynd i oed
Mae'n picio i Bontnewydd
Mor sydyn ag erioed.

O'r diwedd dyma'r rhestr
Yn dirwyn tua'r pen;
Ond na, - mae Joni Robaits
Ac Owen Garnedd Wen.
Ac A.J.S. yw'r peiriant
Sy'n eiddo Idwal Wyn,
Ysgwn-i beth yw hanes
Hen 'gamshaft' Dafydd Glyn?

Yn awr rwyf am eu cyfri,
Mae'n orchwyl wrth fy modd,
Howld on! - sut yr anghofiais
John Evans, Ty'n y Rhodd?
Mae pedwar beic ar hugain,
Wel dyna i chwi ffaith.
Rwyf innau'n cadw 'Ariel'
I fynd at fy ngwaith.

Wel, rhaid i mi derfynu,
Ffarwel ddeudodwyr llon;
Pob lwc i'r ddau fecanic
Sef 'Guto Bach' a 'Non'.
A chofiwch lanciau ifanc
Sy'n reidio ar y lôn, -
"Stick to the motor cycles
And leave the girls alone".

Emyr Jones
Caernarfon
(Waunfawr gynt)

GOL: Llawer o ddiolch am yr hanes ac am y gerdd. Tybed a oes lluniau o'r beicwyr ar gael? A beth am y gerdd gyntaf? Oes copi o honno ar gael? Byddem yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

DAWNSWYR Y



Dawns 'Ceiliog y rhedyn' ar Lawnt y Grosvenor Llanberis.

'STEDDFOD ABERTAWE

TOCYN WYTHNOS

Mae'r Tocyn Wythnos arferol (Eisteddfod a Chyngerdd neu Drama) eisoes ar werth, ond gweithredir cynllun newydd a fydd yn ychwanegu at ddewis yr Eisteddfodwyr a ddaw i Abertawe ym 1982. Am y tro cyntaf darperir tocyn wythnos EISTEDDFOD YN UNIG yn ogystal â thocyn wythnos CYNGERDD (neu DDRAMA) YN UNIG. Bydd tocynnau Maes Wythnos ar werth yn fuan hefyd (pris £7.00 i oedolion, £5.00 i bensiynwyr a £2.50 i blant ysgol). Rhennir gweithgarwch maes Eisteddfod Abertawe a'r Cylch rhwng Parc Singleton a Champws cyfagos Coleg y Brifysgol. Rhy'r tocyn hwn fynediad hwylus i'r holl ganolfannau.

TAIR CYSTADLEUAETH DDIDDOROL YN YR ADUAN LÊN

1. Atgofion am gyfnod Dirwasgiad mewn unrhyw ardal (amaethyddol neu ddiwydiannol) yng Nghymru. Beirniad: Ieuan Gwynedd Jones. Gwobr £50.
2. Casgliad o ddifyrion a chwaraeon oedolion unrhyw ardal yng Nghymru. Beirniad: Tecwyn Vaughan Jones. Gwobr: £60.
3. Cyfrol 'Cricedwyr Cymru' Beirniad: Derec Llwyd Morgan. Gwobr £50.

Ceir manylion llawn am y cystadlaethau hyn a holl gystadlaethau eraill yr Eisteddfod yn y 'Rhestr Testunau' sydd bellach wedi ei ddosbarthu i siopau llyfrau ledled Cymru. Copïau ar gael hefyd drwy'r post o Swyddfa'r Eisteddfod - pris £1.15 (clawr meddal) neu £3.00 (clawr caled).

PLAT YR EISTEDDFOD

Cynhyrchir plat arbennig i ddathlu ymweliad yr Eisteddfod ag Abertawe, ar batrwm plat



Plant Llanrug yn dawnsio yng Nglan Ffynnon

Eisteddfodau Aberteifi (1976), Caerdydd (1978), a Dyffryn Lliw (1980). Wedi ei baratoi yn gywain - patrymau Celtaidd mewn aur, du, coch a glas; arwyddlun yr Eisteddfod ac arfbais Dinas Abertawe. Argraffiad cyfyngedig o 500. Pris £20 (£5 o flaendal wrth archebu).

BEIRDD AC EISTEDDFODWYR

Fis Hydref eleni cyhoeddir detholiad o erthyglau a sgysiau'r Athro Stephen J. Williams dan y teitl Beirdd ac Eisteddfodwyr. Cynhwysir yn y gyfrol ddarlithiau ar Ifor Ceri a Charnhuanawg ac ymdriniaethau â Robert ap Gwilym Ddu, T. Gwynn Jones ac eraill.

Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch 1982 sy'n cyhoeddi'r gyfrol er anrhydedd Stephen J. Williams, yn amlygiad o'i werthfawrogiad ac o ddiolch iddo am ei wasanaeth maith i ddiwylliant ac ysgolheictod Cymraeg yn genedlaethol ac yn ninas Abertawe.

Bydd hon yn gyfrol o tua 100 o dudalennau ac argreffir hi gan Wasg Gomer ar bapur Strathmore a'i rhwymo gan Wetherby Woolnough. Cyhoeddir 300 o gopïau mewn rhwymiad lledr. Pris: £25.00.

R WYL WERIN



Lawnt y Grosvenor Llanberis.



DRAENOG



Bydd llawer un yn falch o ddeall na chafodd Draenog wahoddiad i'r castell – OND siawns na chaiff hyd i dwll yn rhywle i sleifio'i mewn.

O fro'r Eco y daw'r pedwar a wobrwyyd gan gylch Arfon o'r Clwb Merlota am wneud y datblygiad mwya' gyda'u marchogaeth yn ystod y flwyddyn. Enillydd y Gwpan oedd Olwen Jones o Lanrug. Wrth ei hochr mae Aila Heatherley o Benisarwaun, a Wendy Owen a Dafydd Jones o Lanrug yn y cefn. 'Roedd y tri yn gydradd ail.



TRYCHINEB TRIP DINORWIG

Yr oedd teulu fy mam yn aelodau o Eglwys Llandinorwig, Deiniolen, a'r arferiad y pryd hynny oedd i Eglwys y Santes Fair, Dinorwig, ymuno â hwy ar ddydd y trip, a'r haf yma dan sylw fe aethant i Bwllheli. Nid oedd na bws na siarabang y dyddiau hynny, ond Brêcs. Cychwynnent gyda'r Brêcs o Ddeiniolen i stesion Cwm-y-glo, a chael trênnoddi yn Bwllheli. Ar ôl cyrraedd y dref aeth pawb bron i lan y môr yn syth, o achos peth dieithr iddynt o'r wlad oedd glan y môr. 'Roedd gan fy mam fodryb yn byw yn South Beach, mewn tŷ o'r enw Summer Rest, a byddai llawer o ymwelwyr yn dod yno i aros yn yr haf, felly naturiol oedd i fy mam a'i chwaer a dau frawd fynd yno ar eu hunion i gael cinio. Er mai deg oed oedd fy mam cofiai weld llond y lein o ddillad yng ngardd ei modryb, o grysau gwynion y fusutors. Ar ôl cael llond bol o fwyd aeth y bechgyn a'r mwyafrif o'r criw draw i Lanbedrog, gallech fynd yno efo tramiau Solomon Andrews ar hyd glan y môr, ac wrth gwrs, galw yn Nglyn y Weddw, 'roedd yno lawer o bethau i'w gweld i ddenu a diddori y rhai ifainc, *Shooting galleries*, a hefyd arddangosfa o ddarluniau (*paintings*). 'Roedd y mwyafrif o'r trip wedi mynd yno ar eu hunion o'r trênnoddi, felly nid oedd llawer wedi aros yng nglan y môr Pwllheli. Fe ddigwyddodd profedigaeth fawr iawn ar y traeth, 'roedd cychod bach yn mynd am drip yn ôl a blaen am rhyw awr neu ddwy, ac enw perchennog y cwch neilltuol yr wyf i am sôn amdano oedd Bobbie Thomas, ac enw'r cwch oedd Doris, (enw ei gariad medda fo). 'Roedd fy mam a'i chwaer yn y cwch cyntaf, ac wedi iddynt fynd allan ychydig i'r môr, bu ei chwaer yn sâl, a gorfu iddynt ddod i'r lan cyn pen yr awr, ac yn rhyfedd iawn ar yr ail drip aeth allan 'roedd deuddeg ynddi o Eglwys y Santes Fair Dinorwig: Owen Thomas, Ty'n y Fawnog (33 oed); Elen Thomas ei wraig (27 oed); Ellen Thomas, y ferch (10 oed); Gwen Parry Thomas, (3 oed); William Edward Williams (6 oed); John Hughes, Tŷ Ddewi (36 oed); John Rowland Hughes (12 oed); Catherine Ann Hughes (10 oed); Ellen Hughes (6 oed); Richard Hughes, Tan-y-Bwlch (15 oed); Thomas Hughes Tan-y-Bwlch (12 oed); Charles Davies, Bron Elidir (13 oed).

Fe foddwyd y cwbl ond y cychwr (Bobbie Thomas) a oedd yn nofiwr da, gwnaeth ymdrech galed i'w hachub; 'roedd y môr yn gynhyrfus, a'r gwynt yn gryfiawn. Efallai bod y cwch yn rhy lawn, hefyd. Erbyn hyn 'roedd llawer o bobl wedi casglu o'r dref at y drychineb ar lan y môr, y siopwyr a'r bwtsieriaid yn eu bardodiau gwynion, a llawer eraill. Rhedodd fy mam a'i chwaer a'i modryb o'r tŷ i lan y môr, a dyna olygfa druenus,

— doctoriaid wrthi'n ceisio rhoi bywyd i un eneth fach, ac yn rhwygo ei dillad, a staes bach goch amdani, ond ni wnaeth adfywio, na'r un o'r deuddeg. Cafwyd yr unarddeg y diwrnod hwnnw, a bu raid i un o'r dynion o Ddinorwig aros yno am ychydig ddyddiau nes cael hyd i'r bachgen bach, fe lwyddodd ymhen yr wythnos, Johnnie oedd ei enw.

'Roedd tŷ gwag ar lan y môr, ac aethant â'r cyrff yno, ac am flynyddoedd wedyn bu'r tŷ yn wag, a dywedir fod ôl y cyrff a'r heli môr yno am amser maith. Y peth nesaf oedd anfon at y criw arall i Lyn-y-Weddw, yr oedd pawb eisiau mynd adref. Aeth pawb at y trênnoddi drist. 'Roedd y diweddar Barch James Salt yn ficer ar Landinorwig y pryd hynny, yn ddydd ieuanc hardd, ac wedi dod ar y trip gyda'r ddwy ferch hynaf, sef Dolly ac Edith. 'Roedd pawb yn rhuthro am y trênnoddi, a chododd y ficer ei law a dywedodd, "Peidiwch â rhuthro, mae deuddeg o seddau yn wag," meddai.

Wrth fynd trwy Afon Wen, Bryncir, a Chaernarfon 'roedd tyrrau o bobl wedi clywed am y trychineb, ac wedi cyrraedd stesion Cwm-y-glo, nid oedd modd myned drwy'r dorf, ond fesul un, a phawb yn holi am eu teuluoedd, a oeddent yn saff. Wedi i'r brêc gyrraedd Deiniolen, 'roedd pawb yn brudd iawn, ar ôl y cychwyn llawen yn y bore. Dyma'r angladd mwya' a welwyd erioed yn Ninorwig, deuddeg o eirch a theuluoedd o bobman. 'Roedd rhai eisiau eu claddu mewn un bedd, ond gyda'u teuluoedd yma ac acw yn y fynwent y maent. Os ewch i mewn i'r eglwys cewch weld cofgolofn hardd ar y mur i'w coffhau.

Beth ddigwyddodd i'r gweddillion yn y ddrama tybed? Wel, fe fu Bobbie Thomas fyw am ychydig amser, 'roedd wedi magu'r ddarfodedigaeth (TB), wedi poeni medden nhw, am na allodd achub y bobl. Bu'r cwch a'i wyneb i lawr yno am lawer blwyddyn. Ym Morannedd, y tŷ gwag lle aed â'r cyrff, — mae enw newydd arno bellach, a phobl eraill yn byw yno, ac yn Summer Rest, cartref modryb fy mam mae pobl ddieithr. Gofynnais lawer tro i fy mam pahan nad oedd taid a nain (sef mam a tad fy mam) gyda'r plant ar y trip. Y rheswm oedd fod cefnder i fy nhad yn cael ei gladdu yn y Gerlan, Bethesda. Clywodd yntau am y drychineb, pan ym Methesda, a chafodd drawiad ar ei galon a bu farw'r noson honno.



Gol: Cafwyd y wybodaeth ychwanegol hon am y drychineb ar drip yr Ysgol Sul gan Mrs L. Hewitt, 19 Friars Road, Bangor. 'Roedd ei mam, y diweddar Mrs Mary Edwards, Fron Oleu, Gallt y Foel, Deiniolen, yn blentyn ar y drip. Bu farw ym mis Ebrill 1968.

ATGYWEIRIO DODREFN
'FRENCH POLISHING'
UGAIN MLYNEDD O BROFIAD YN Y
GWAITH

J. RHEON PRITCHARD

14 GLANRAFON
BONTNEWYDD

Ffôn: Caernarfon 3507)



GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL

CWM-Y-GLO

COLLI PRIF DDOSBARTHWR – Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r Eco yng Nghwm-y-glo fel Prif ddosbarthwr, mae Mr Llew Hughes, Hyfrydle wedi mynegi'r awydd i roi'r gorau i'w swydd. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddo ar ran y papur a'r fro am ei lafur di-flino. Hefyd diolch i'w briod a'i chwaer. Miss E. Hughes, Craig-y-Don am ei gynorthwyo gyda'r gwerthiant yn y pentref. Hoffwn, yr un pryd, wneud apêl am enw a chyfeiriad unrhywun yng Nghwm-y-glo sydd yn fodlon ymgymryd â swydd Prif ddosbarthwr y pentref ac unrhywun arall sydd â diddordeb mewn helpu gyda'r gwerthiant o ddy i ddy.

Diolch yn fawr,

Ian Pierce, (Trefnydd Gwerthiant)

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn y ganolfan gymdeithasol nos Fawrth, Medi 8. Agorwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy. Cafwyd noson ddifur iawn yng nghwmni Mrs I. Thomas a Mrs E. Perkins, Y Gaerwen, Ynys Môn. Siaradodd Mrs Thomas am ei phrofiad fel athrawes yng Nghaergybi ac adroddodd hanesion am y plant a chysylltwyd yr hanesion gan Mrs Perkins gyda chaneuon i gyfeiliant gitâr. Y gwesteion oedd Mrs H. Roberts, Bod Gwynedd a Mrs L. Orritt, Morannedd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs S. Jones o gangen Llanrug ac eiliwyd gan nifer o'r aelodau. Yr organydd oedd Miss Ceridwen Hughes. Ar Hydref 13 cynhaliwyd gwasanaeth agoriadol y tymor newydd gyda'r Rheithor yn gwasanaethu. Canwyd yr organ gan Miss C. Hughes. Llywyddwyd y cyfarfod busnes gan Mrs Williams, Y Rheithordy a chafwyd ganddi adroddiad o'r gynhadledd ganolog flynyddol a gynhaliwyd yn Llandudno. Mrs Williams oedd wedi paratoi'r te a diolchwyd iddi gan Mrs Orritt. Diweddwyd y cyfarfodydd drwy weddi.

CASGLIAD Y DEILLION – Mrs Russell Rowlands, Talafon fu yn casglu at gronfa'r deillion yn y pentref a llwyddodd i gasglu y swm o £11.60 at

yr achos teilwng yma. Y mae'r Rheithor yn hynod ddiolchgar i Mrs Rowlands am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r gwaith ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF – Daeth eto ddyddiau diolch am gynhaeaf a llawnder bwrdd a bu gwasanaethau hynod lewyrchus yn Eglwys Sant Gabriel. Y Rheithor a weinyddai'r Offeren fore Sul, Hydref 18 ac fe draddododd anerchiad i'r plant yng ngwasanaeth y plant brynhawn Sul. Yr oedd y gwasanaeth o dan ofal yr athrawon Mrs J.E. Watkins, Mrs L. Orritt a Mrs I. Lloyd Roberts. Rhannwyd gwobrau am ffyddlondeb i'r canlynol: Cynthia Orritt, Andrew Williams, Carys Williams, David Foulkes, Sandra Williams a Karen Foulkes. Canwyd yr organ yn y gwasanaeth yma gan Miss J. Orritt. Arweiniwyd gwasanaeth nos Sul gan y Parch C.S. Williams, Curad Caernarfon ac ef hefyd a draddodai y bregeth. Y pregethwr gwadd yng ngwasanaeth nos Lun oedd y Parch Aled Edwards, Curad Glanogwen ac fe ganwyd y gosber gan y Rheithor. Miss C. Hughes oedd yr organydd yn yr holl wasanaethau. Fel arfer yr oedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn hardd iawn ar gyfer yr ŵyl ac fe ddiolcha'r Rheithor a'r Wardeiniaid am y rhoddion o flodau, llysiau a ffrwythau ac am bob help gyda'r gwaith.

FFAIR Y CYNHAEAF – Cynhaliwyd Ffair y Cynhaeaf yn y Ganolfan, nos Fawrth, Hydref 20 ac fe aeth yr elw at gronfa Eglwys Sant Gabriel. Bu cyfeillion yr eglwys yn brysur yn paratoi ar gyfer yr achlysur ac fe wobrwyyd eu hymdrechion gan elw sylweddol iawn. Fe ddiolcha y Rheithor a'r Wardeiniaid i bawb am eu cefnogaeth ac i'r rhai a weithiodd mor ddiwyd i wneud y fenter yn llwyddiant.

YR URDD – Gwerthwyd Baner i'r Urdd yn y pentref yn ddiweddar, a chafwyd elw o £20.70 rhwng pentrefi Cwm-y-Glo a Brynrefail. Mae Pwyllgor Ariannol yr Urdd yn ddiolchgar i'r casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

DAMWEINIAU PLANT AR EIN FFYRDD

Y flwyddyn hon, caiff 470 o blant eu lladd ar y ffyrdd yng ngwledydd Prydain. Ar ben hyn, bydd cymaint â 50,000 yn cael eu hanafu ar y ffyrdd, rhai ohonynt yn ddifrifol iawn. Bydd fel canlyniad, gannoedd ag anallu corfforol am eu hoes.

Paham mae'r ffigurau hyn mor arswydus o uchel? Wel, i ddechrau mae trafndiaeth ar ein ffyrdd yn un o'r pethau mwyaf peryglus a chymhleth mae'n plant yn gorfod ei wynebu bob dydd.

Os y meddyliwch am funud fe sylweddolwch fod croesi'r ffordd yn bell o fod yn hawdd. Mae'n rhaid i'r plentyn, cyn croesi, ierddu cyflymdra'r cerbyd a'i bellter yn eitha' cywir. Ar ben hyn, mae'n rhaid i'r bychan ymateb i'w sefyllfa yn sydyn.

Dim rhyfedd felly nad yw plant yn llwyddo i groesi yn ddiogel yn aml iawn ac eto mae 'na lawer o rieni yn rhy barod i'w gadael i wneud hynny ar eu pen eu hunain, yn rhy ifanc o lawer.

Nid ar y ffyrdd prysuraf yn unig y mae damweiniau'n digwydd – mae'n rhaid cofio fod 'na lawer iawn o blant yn cael eu lladd ar y ffyrdd o fewn tafliad carreg i'w tai. Beth a allech ei wneud i'w helpu?

Yn gyntaf dygwch Gôd y Groes Werdd i'r plentyn a mynd trwyddo gydag ef nes ei fod yn ei wybod air am air. Yna dysgwch y plentyn i groesi'r yrrdd dinstaw tra 'rydych chi yn ei wylu.

Dangoswch y llefydd mwyaf diogel iddo groesi'r ffordd – yn ymyl y goleuadau, gyda chymorth dyn lolipop neu blismon, ac os nad oes un o'r rhain ar gael, dewis rhan o'r ffordd ble mae hi'n hawdd gweld y ddwy ffordd yn glir.

Cofiwch roi dillad golau neu stribyn sy'n adlewyrchu goleuadau yn y tywyllwch ar eu dillad. Mae'n rhaid i'r gyrrwr wneud ei ran yn ogystal, a chadw ei lygad yn agored am yr annisgwyl – plant yn slegfrio ar 'Skates' neu fwrdd sglegfrio, y fan hufen-iâ, plant yn rhedeg allan

o'r ysgol ac yn y blaen.

Cofiwch hefyd y dylanwad y gall cyffuriau neu'r ddiod feddwol ei gael ar allu y gyrrwr i yrru'n ddiogel. Gofalwch nad ydych yn un o'r rheini.

PLANT AR FEICIAU

Yn aml iawn mae damweiniau yn digwydd i blant sy'n rhy ifanc neu'n rhy anturus i fod ar y ffordd fawr.

Yn gyntaf, sut bynnag, mae'n rhaid gofalu fod y beic o'r maint iawn i'r plentyn i'w alluogi i edrych tu ôl iddo a rhoi arwydd gyda'i law heb ysgwyd.

Pan fo'r plentyn yn eistedd ar y cyfrwy dylai ei draed fod yn cyffwrdd â'r llawr yn gyfforddus a'i ddwylo yn medru gweithio'r beic yn ddi-boen.

Fel rheol, ni ddylai plant o dan naw oed fod allan ar y ffordd ar eu pen eu hunain.

Rhowch anogaeth i'r plentyn gymryd ei Brawf Gyrru ar ei feic, neu o leiaf ddysgu rhai o Reolau'r Ffordd Fawr sy'n briodol.

Unwaith eto, mae gwisgo'n olau yn y nos yn holl-bwysig.

PLANT MEWN CEIR

Bob blwyddyn mae cymaint â 10,000 o blant yn cael eu hanafu mewn ceir a 75 yn cael eu lladd.

Peidiwch byth â dal baban yn eich breichiau yn y sedd flaen.

Peidiwch byth â gadael i blentyn eistedd neu sefyll ar y sedd flaen heb wregys i'w ddiogelu.

Peidiwch byth â gadael i blentyn sefyll ar y sedd ôl

Yr unig ffordd i blentyn deithio mewn car yr oes yma yw gyda gwregys pwrpasol. Naill ai

i) un ar gyfer 'carry-cot'.

ii) sedd ddiogelwch i blant i fyny at 4 oed

iii) un i blentyn i fyny at 10 oed

iv) gallai plant 10 oed neu hŷn ddefnyddio gwregys oedolyn yn y sedd flaen neu sedd ôl.

Cofiwch, dangoswch y ffordd iawn iddyn nhw eich hunain trwy wisgo gwregys diogelwch bob amser.

Dilynwch y rheolau uchod a gwnawn Wynedd yn lle saffach i'n plant.

TAN-Y-COED

PRIODAS ARIAN – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Alwyn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed, ar ddatlu eu Priodas Arian ar Hydref 6 – ein dymuniadau da i Mr a Mrs Jones, eto i'r dyfodol.

CHWARAE HOCI – Ddydd Sadwrn, Hydref 17 bu Margaret E. Roberts, Tainewyddion, fel aelod o dim merched Bangor yn chwarae hoci yn Nhreialon Sirol Gwynedd yng Nghonwy.

DIOLCHIADAU – Dymuna Anne C. Jones, Pant Clyd gynt, a'i theulu ddiolch i gyfeillion Tan-y-Coed, y teulu ac eraill am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd Anne pan yn dechrau ar ei chwr yn y Coleg. Diolch yn fawr i bawb.

CROESO – Estynnwn groeso cynnes i Mr a Mrs Derek Strudwick, Sarah a David i Fwthyn Tan-y-Coed. Pob dymuniad da i'r teulu yma yn eu cartref newydd.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH – Dechreuodd yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn Nhan-y-Coed bawn Sul, gyda chenadwri amserol a grymus gan Mr Bryn Williams, Tangaer, Pontrhyallt. Yna yn yr hwyr gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts, yntau fel arfer â'i genadwri tymhorol a dwys.

Fore Llun cynhaliwyd cyfarfod gweddi gyda Mr Harry J. Roberts, Tainewyddion; Mrs Katie Williams, Gwelfor; a Mr Glyn Owen, Llys Eryri

yn cymryd rhan. Y cyfeilydd oedd Mrs V. Blanchard, Y Llythyrdy. Hi hefyd oedd yn cyfeilio yng nghyfarfod yr hwyr.

Yn y prynhawn cynhaliwyd Gwasanaeth y Plant, y rhaglen wedi ei threfnu gan y Parch W.O. Roberts. Cafwyd eitemau gan holl ddosbarthiadau'r Ysgol Sul, a dangoswyd gwaith creadigol – gweithgarwch y plant eu hunain yn eu cartrefi.

Anerchwyd y plant gan y Parch W.O. Roberts. Y cyfeilyddion oedd Mrs Carys Evans, Carwyn a Mrs Miriam Hughes, Rallt Deg. Yr arweinydd oedd Miss Margaret E. Roberts, Tainewyddion.

Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch Marcus Robinson, a arweiniodd ni yn ystyriol i ddiwedd yr ŵyl.

Daeth cynulliad da i holl oedfaon y pen wythnos. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, yn enwedig i'r plant a'u hathrawon, eu teuluoedd a'u cyfeillion bawn Llun. Calonogol iawn oedd gweld y festri'n llawn bawn Llun.

Gwasanaeth y Plant oedd y gwasanaeth cyhoeddus cyntaf i'w gynnal yn y festri ers pan atgyweiriwyd hi. Priodol iawn mai'r plant gafodd ei chyflwyno ar ei newydd wedd i'w rheini, eu teuluoedd a'u cyfeillion.

BETWS GARMON

DATHLIADAU – Llongyfarchiadau i Mrs A. Griffith, Caeau Gwynion ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar Hydref 14; hefyd ar yr un diwrnod dathlodd Mr a Mrs Griffith eu Priodas Aur. Pob hapusrwydd a hir oes iddynt.

BEDYDD – Ar Awst 16 bedyddiwyd Huw Arwel, mab Mr a Mrs I. Evans, Talwrn (gor-ŵyr i'r uchod) ac ŵyr i Mr a Mrs G. Williams, Ty'n Weirglodd yng nghapel Salem.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: PENYLLYN 518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

DYFODOL HEN YSGOL BRYN'REFAIL

Yn rhifyn mis Medi o'r Eco fe ddatganwyd pryder y pentref ynglŷn â dyfodol yr ysgol fach. Mewn ychydig ddyddiau bu cyfarfod cyhoeddus arall yn Nhŷ Glas, y tro yma i drafod dyfodol Hafod Meurig – neu yr hen ysgol ramadeg, yr hon a adeiladwyd ar dro y ganrif, ac a agorwyd yn 1900, – bob bricsen a llechen yn dystiolaeth o'r ymdrech a fu yn yr ardal i godi'r arian. Ysgol enwog iawn, ac yn agos at galonnau ei chyn-ddisgyblion, rhai ohonynt erbyn heddiw ymhob cwr o'r wlad a'r byd. Ymysg ei hathrawon hefyd yr oedd rhai o berlau mwyaf amlwg a diwylliedig ein gwlad. Yn 1956-7, ail-sefydlwyd Ysgol Bryn'refail yn Llanrug ac fe werthwyd yr adeiladau i'r Sefydliad Rainer, i'w ddefnyddio fel canolfan gweithgareddau awyr agored dan yr enw 'Hafod Meurig'. Ac felly y bu hyd 1976, pan benderfynwyd cau y ganolfan, a bu'r hen ysgol yn wag ac yn ddi-DDEFNYDD O HYNHY HYD YMA. Mae'r Sefydliad Rainer wedi ail-agor canolfan yn yr adeiladau allanol, tu cefn i'r hen ysgol. Mae diffyg wedi ei ddarganfod yn rho'r hen adeilad, ac ni fedrir cyfiawnhau y gost o'i atgyweirio.

Y bwriad felly, yw chwalu yr hen ysgol, ac wedyn ail-godi canolfan newydd ar gyfer 16 o blant a'u hyfforddwyr. Byddai adeilad newydd o'r fath yn rhatach i'w gynnal. Cafwyd amlinellad o hyn gan y warden presennol, Mr John Cobb. Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus oedd y Cynghorydd Sam Jones, Bethel, o'r pwyllgor cynllunio, y Cynghorydd Mrs Pat Larsen a Mr Ken Jones, ein Cynghorydd Cymuned.

Y cynnig gerbron y cyfarfod yn Nhŷ Glas oedd fod y Sefydliad Rainer yn barod i adael rhan o'r hen ysgol yn sefyll, hynny yw – yr ystafell fawr sydd i'r chwith o'r prif fynediad, ac y

byddai'r Sefydliad yn trosglwyddo'r rhan yma fel rhodd i'r pentref. Deallir nad yw'r rhan yma wedi dirywio cymaint, ac fe ellir ei adael yn sefyll ar wahân i'r gweddill o'r adeiladau sydd i'w chwalu.

Cynnig a chyfle gwych? – ond byddai'r draul o newid yr adeilad ar gyfer defnydd newydd; canolfan neu glwb ieuencid efallai, yn syrthio ar y pentrefwyr. Er y byddai cyfran helaeth o'r gost (75 y 100) i'w dderbyn mewn grantiau o'r Adran Addysg a'r Swyddfa Gymreig, teimlad y mwyafrif yn bresennol yn y cyfarfod oedd y byddai hyd yn oed chwarter y gost yn llawer mwy na ellir ei gasglu yn y pentref, a hynny mewn cyfnod mor fyr cyn i'r rhan yma o'r adeilad ddirywio hefyd.

Wel, dyna'r cynnig – rhodd o adeilad i'r pentref, a chyfle i gadw rhan, o leiaf, o adeilad sydd yn bwysig yn nhraddodiad a diwylliant yr ardal. "Diwedd y gân yw'r geiniog" – ac fe ofynnwyd i Mr Cobb gyfleu teimlad y pentrefwyr i'r Sefydliad Rainer, gan erfyn arnynt ystyried cyflwyno'r adeilad mewn cyflwr trwsiadus fel mai cost cynnal yn unig a fyddai'n wynebu'r pentrefwyr.



Adeilad hen ysgol Bryn'refail. Canolfan newydd?

NANT PERIS

PROFEDIGAETH – Trist yw cofnodi marw'r cymeriad tawel a gweithgar Derlwyn Searell Jones, Dwyfor yn 52 oed. Bu farw yn Ysbyty Môn ac Arfon, Hydref 4, ar ôl cystudd hir a blin a ddioddefodd yn ddewr a thawel. Bydd colled fawr i Gapel Rehoboth ar ei ôl gan iddo ef a'i briod fod yn hynod o ffyddlon wrth yr offeryn ar hyd y blynyddoedd a daliodd ati hyd y diwedd. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrfa â'i briod, y meibion Elwyn ac Alwyn, a'i fam oedrannus a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth. Os yw y golled yn fawr i Rehoboth mae yn fwy o lawer ar aelwyd Dwyfor.

DIOLCH – Dymuna Mrs Derlwyn Searell Jones, Elwyn ac Alwyn ddiolch o galon i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem a hefyd am y llythyrau a chardiau niferus. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ysbyty Môn ac Arfon am eu gofal a'u caredigrwydd.

DIOLCHGARWCH – Cafwyd cyfarfodydd da a bendithiol dros yr Wyl Ddiolchgarwch yn Eglwys Sant Peris a Chapel Rehoboth. Da yw gweld yr hen arferiad o neilltuo dydd i ddiolch yn para er yr holl newid.

I'R COLEG – Dymuniadau da i'r canlynol ar eu hymadawiad i wahanol golegau:

Hefin Pritchard Ty Isa i Goleg Glynllifon. Eilian Williams (Penant) i Goleg yn yr Alban a Wendy Kershaw Tan y Bryn i Goleg Harlech.

LLONGYFARCHIADAU i Rhiannon Llewelyn merch Mr a Mrs G. Searell Jones Gwynant ar ei llwyddiant mewn arholiad i fod yn ymwelydd iechyd. Mae Rhiannon wedi bod yn hynod lwyddiannus ar hyd ei gyrfa fel gweinyddes yng Nghaerdydd. Mae yn awr yn SRN, CMB, HV. Pob

llwyddiant ymlaen Rhiannon.

BEDYDD – Ddydd Sul, Hydref 25 yng Nghapel Rehoboth bedyddiwyd Tomos Charles mab Mr a Mrs Anthony Adams, Llundain ac wlyr Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant. Gweinyddwyd gan y Parch Marcus W. Robinson, y gweinidog, a'r fam feddyd oedd Mrs Anne Elis, Bethel.

DAMWAIN – Dymunir adferiad buan i Robert Thomas, Gwesty'r Faenol wedi damwain car yng Nghapel Curig.

FFYNNON OLEW NAIN YN ERBYN NEUTRON-DDRAIN

Dywedodd Nain fod ffynnon dda yn rhoddi olew pur fel ia, wrth ddrws y cefn, o dan y drain; ond, methais i weld ffynnon Nain. Dywedodd Mam fod hyn yn wir, fod at bob dolur olew clir; er chwilio'r drain a'r ardd i gyd ni allwn weld yr hylif drud. Dywedodd Nain fod olew hon yn iechyd i bob glwyfus fron, yr olew oedd fel bywiol win, yn rhin at bob rhyw drallod blin.

Ai gwrando'r tylwyth teg oedd Nain wrth sôn am ffynnon yn y drain? Na, wir, mae ffynnon Nain yn ffaith, 'rwy'n gweld difodi llawer craith. Mae'r ffynnon hon fel llifant bron – wrth ddrws bob tŷ ar dddear gron! O hyd aiff Nain a'i phiser glân i rannu'r olew gyda'i chan!

Rwyf heddiw'n gweld y ffynnon gain o dan y drain, 'rôl dilyn Nain wrth ddrws ein tŷ mae ffynnon bur at wella dolur, lleddfu cur. Nid pydew hon o ddwyllaw dyn ond ffynnon gloddiodd Duw ei hun, mae pŵer yn ei nerthol li, ac egni yn ei olew hi.

Nid byth y sycha'r olew drud, can's HWN a ddatrys ofnau'r byd. Cadarnach HWN na'r 'neutron-ddrain' sy'n lladd pob plentyn, mam a nain!

Mrs Bayliss Llanberis

CYNHAEAF GWAIR – 1923



Cynhaef gwair yn Nhyddyn Rhuddallt, Llanrug tua 1923. O'r chwith: Owen Thomas, John O. Ellis, Iorwerth Williams, Mrs Annie P. Owen, Tom Jones, Glyn Hughes, Hugh Williams, Bethel ar y llwyth.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

BETH AM DDOD I
GYSTADLU I
EISTEDDFOD
GADEIRIOL DYFFRYN
OGWEN

Manylion gan Emlyn
Jones, Bethesda 600846
neu

BETH AM DDOD I
FWYNHAU'R WLEDD YN
YSGOL DYFFRYN
OGWEN, BETHESDA

Nos Wener, Tachwedd 13
6.30 p.m.
Sadwrn, Tachwedd 14
12.30 a 6 p.m.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

HEN A NEWYDD

Rhyfedd fel y mae arferion ardal yn newid dros y blynyddoedd. Dylanwad neu ddiffyg dylanwad crefyddol a fu'n gyfrifol am y newid yn aml, a'r arch-ddylanwadwr yn ddiau oedd Methodistiaeth. Sonnir dro ar ôl tro yn ein llyfrau hanes am ddylanwad y diwygiad Methodistiaid ar y 'werin bobl', pwy bynnag oedd y rheini. Nid wyf yn bwriadu ceisio dadansoddi'r dylanwad hwn ar y newid mewn arfer, ond nodi'n unig y newid a fu.

Eglwys y plwyf yn sicr oedd man cyfarfod y fro yn yr hen amser. Yno y deuai'r plwyfolion i gyfarfod ei gilydd ac i sgwrsio am hynt a helynt yr wythnos a aeth heibio, ac i drafod unrhyw ddigwyddiad oedd i'w gynnal yn ystod yr wythnos i ddod. Yn y fynwent hefyd, ar derfyn gwasanaeth y bore byddid yn cynnal chwaraeon a champau, a'r chlochydd gan amlaf yn cyhoeddi'r chwarae oddi ar garreg fedd. Yr oedd yr offeiriad yn aml yn rhoi sêl ei fendith ar y chwarae. Mae'n sicr fod offeiriad dysgedig yn yr ardaloedd hyn, ond yr oedd eraill nad oeddynt wedi derbyn fawr mwy o addysg na'u plwyfolion. Roedd i ofergoel ran amlwg ym mywyd y bobl, a chredent mewn ysbrydion, swynau a choelion ynglŷn â geni, priodi a marw.

Yr oedd gŵr o'r enw Rowland Williams yn offeiriad yn Llanrug o 1713 hyd 1725, ac yn ôl traddodiad, yr oedd ef a'i fab yn astudio 'physigwriaeth'. Deuai amryw o drigolion y cylch ato gan gwyno oddi wrth rhyw anhwylder, a chawsant 'iachad rhyfeddol' ganddo. Bu farw ym Mhlasterion, a dywedir fod ystafell yno yn lloches i ysbrydion ar ôl ei farw. Dywedir fod Rowland Williams yn euog o drosedd mawr, ac mai dyna'r eglurhad am yr ysbrydion yn yr ystafell y bu farw ynddi. Fel pe i gadarnhau'r ffaith, adroddir am ddigwyddiadau hynod ar ddiwrnod ei angladd. Fel yr oedd ei gorff yn cael ei gario i'r eglwys, daeth yn storm o fellt a tharanau 'fel mai gydag anhawster y gallent ddal gafael yn yr elor.'

Yn ôl Williams Hopley (Hanes Methodistiaeth Arfon) credid fod ysbrydion ym Mwlch Llanberis hefyd: "fe fyddai Owen Owen y Cwmglas Bach, bob tro yr ai heibio'r Clogwyn talgae yn yr hwyr, yn mynd ar ei liniau i weddio am amddiffyn yn wyneb y gred y blinid y lle gan ysbryd drwg." Yr oedd hefyd, yn ôl William Hopley, groes garreg yn simne'r Brynglas, Nantuchaf, "er cadw'r ysbryd drwg o'r tŷ." Yr un syniad mae'n debyg, sydd y tu ôl i'r gred o hoelio pedol uwchlaw drws y tŷ i gadw lwc ('ysbryd') ddrwg rhag dod i mewn. Dywed Iorwerth Peate yn 'Diwylliant Gwerin Cymru' fod y ceffyl yn destun llawer o goelion gwerin ac ymddengys eu bod yn "haws eu rheibio nag odid unrhyw anifail".

Yn yr un modd, ceir nodiadau am ardal Cwmyglo gan Evan J. Roberts yn sôn am ofergoeliaeth yr ardal. "Rhoid pwys mawr ar freuddwydion, a rhoid cred mewn kannwyllau corff, ac yn nylanwad cyfrin y Jac y lantern, yr aderyn corff, ci yn udo, ceiliog yn canu ar gamamser a'r cyffelyb. Tybid y darogenid rhywbeth mawr a phwysig drwy'r pethau hyn." Faint o blant heddiw tybed, sydd wedi clywed am y coelion hyn? (Ar wahân, efallai, i helyntion cartŵn 'Scooby Doo' a'i debyg!)

Gan Robert Ellis y ceir hanes am rai o arferion trigolion plwyf Llanddeiniolen. Roedd yn cofio mynychu'r eglwys gyda'i daid, Ifan Sion Ffowc y Celyn-isaf, ac un gwasanaeth a geid. Yna, byddai pawb yn ymgynnull yn y fynwent, i drafod helyntion y plwyf. Mae John

Roberts yn 'Gwaen Gynfi', eto'n sôn am arferion y bobl; fel y cynhelid nosweithiau llawen neu 'gwrw gwadd' pan fyddai dau ifanc yn priodi. Byddai pawb am y gorau yn yfed cwrw, ac ai'r elw i'r ddau oedd yn priodi. Ceir hanes diddorol gan Robert Ellis am ddiwedd yr arfer hwn yn ardal Penisa'rwaen yn y 'Drysorfa' 1882. Yr oedd pâr ifanc wedi adeiladu tŷ newydd ac wedi cyhoeddi noswaith lawen i brynu ac yfed cwrw. Roedd crythor wedi ei wahodd hefyd. Cynhaliwyd y cyfarfod ar nos Sadwrn yn nhŷ Owen William Owen ym Mhenisarwaen. Digwyddodd Ann Thomas fod yn pasio heibio. "Hen ferch fawr, hagr, ag un llygad ganddi oedd Ann. Yr oedd yn benigamp am ganu. Cyn dyfod at grefydd yr oedd yn enwog am ganu gyda'r tannau." Perswadiwyd Ann Thomas i ddod i mewn i'r noswaith lawen, ac yfodd yn helaeth. Yn naturiol, bu'n rhaid iddi ganu. "Dechreuodd hithau ganu rhai o'r hen Hymnau, a chanu... nes teimlo'i hun mewn hwyl canu - pawb yn sobri, ac Ann yn canu." Yn ôl Robert Ellis, dechreuodd rhai o'r yfwyr godi a cherdded allan, ac y mae "Ann yn teimlo fod y fuddugoliaeth yn ei llaw. Mae braich y 'fiddler' yn crynu, ac o'r diwedd dacw yntau yn codi ac yn dianc ymaith." Dyma yn ôl yr hanes, y noswaith lawen olaf yn yr ardal, ac ar ôl 'buddugoliaeth' Ann Thomas daeth yn arferiad cynnal pregeth mewn tŷ newydd.

Ysgrifennwyd hanes Capel Nazareth, Pontrug yn 1891 gan Evan Evans; mae yntau'n sôn am arferion yr ardal tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg: "ymgasglent i chwarae y bel a chyflawni gorchestion eraill. Eraill a ymddiffyrent eu hunain i herwela. Prif leoedd yr ymgyrchu oedd Hafod y Rhys Isaf, a lle arall ydoedd y pryd hwnnw yn drigle o'r enw Nant aelgwyn." Ceir sôn hefyd am ymryson rhedeg ceffylau yn Llanberis gan Iorwerth Peate yn 'Diwylliant Gwerin Cymru.'

Dyma felly, rai o'r hen arferion a chwaraeon sydd wedi diflannu o'r ardal bellach. Ond daeth rhai newydd i gymryd eu lle; a llawer ohonynt yn sgil dylanwadau Seisnig. Aeth yr Wyl Fabsant yn angof, ond daeth carnifal i lenwi'r bwlch, ac yn sgil y carnifal daeth arferion anghymreig fel y dawnswyr Morris a Majorettes. Faint sy'n sylweddoli mai coelcerth Nos Calan Gaeaf sy'n cael ei chofio yn y cyfnod rhwng Haloween a than gwyllt Guy Fawkes? Mae'r dathlu'n parhau, ond gan amlaf er elw cwmniau masnachol ar draul y cyhoedd. Mae'r arfer o greu difyrwrch er ei fwyn ei hun wedi darfod. Os oes rhaid creu difyrwrch rhaid gofalu rhag colled, a gorau'n y byd faint o elw a wneir at rhyw achos neu'i gilydd. Er hynny, rhaid peidio a digalonni'n llwyr. Mae lle i ddiolch fod traddodiadau ac arferion Cymreig newydd wedi eu geni: papurau bro yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth na hen faledi a werthid ers talwm; eisteddfodau lleol, sguboriau llawen, twmpathau dawnsio gwerin ar gynnydd, nosweithiau llawen ac ymrysonfeydd y beirdd - y cyfan yn gymorth i gynnal a hybu'r diwylliant Cymraeg a Chymreig.

Braf meddwl am yr hyn a fu, ond yr heddiw a'r yfory sy'n bwysig bellach.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

PETH WMBRETH 'CYSTADLEUAETH FWYA'R GANRIF'

Lansiwyd cystadleuaeth newydd y mis hwn gan Urdd Gobaith Cymru mewn cydweithrediad â BBC a HTV Cymru, y Cyngor Llyfrau Cymraeg, Recordiau Sain a'r cylchgronau 'Sboncyn' a 'Sgrech'. Cystadleuaeth ar ffurf cwis yw 'Pethwmbreth' mewn tair adran o oed gwahanol. (Cynradd dan 12, Uwchradd Dosbarth 1-3 ac uwchradd 4-6), gyda'r mudiadau a'r cyrff uchod yn cyfrannu cwestiynau i'r cwis, a hefyd yn cynnig gwobrau i'r enillydd ymhob adran. Seilir y cwestiynau ar raglenni, cylchgronau ac ati a fydd yn ymddangos yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Er mwyn torri'r ddadl wrth feirniadu, gofynnir i bob ymgeisydd lunio ymadrodd bachog i hysbysebu ei hoff raglen neu gylchgrawn Cymraeg. Dyddiad cau'r cystadleuaeth fydd 15 Ionawr 1982.

Bwriad y gystadleuaeth yw hybu diddordeb plant a phobl ifanc Cymru yn y ddarpariaeth adloniannol ar y teledu a'r radio, ar record, neu mewn print a gynigir iddynt. Wrth gynnig pentwr o wobrau deniadol gobeithir sicrhau ymateb brwdfrydig.

Bydd enillydd y gystadleuaeth dan 12 oed, er enghraifft, yn derbyn gwobrau, yn cynnwys ymweliad â stiwdio deledu, tanysgrifiadau i Sboncyn a Cymru'r Plant, 'Grog' o un o gymeriadau 'Ribidires', tocynnau llyfrau, ac wythnos o wersyll haf yn Llangrannog yn rhad ac am ddim. Bydd enillwyr adrannau eraill y gystadleuaeth yn derbyn gwobrau tebyg. Un enillydd fydd i bob adran.

Am fanylion pellach cysyllter â Geraint Davies, Swyddfa'r Urdd, Heol Llanbadarn, Aberystwyth, Dyfed (0970 3744-5)

CYSTADLEUAETH Y MIS



Beth mae'r parot yn ei ddweud? Bydd £2 o wob'r i'r cynnig gorau. Anfoner eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

ANRHYDEDD I FARDD O'R ARDAL

Yn ddiweddar ymddangosodd englyn er cof am y bardd o Geredigion, B.T. Hopkins ar dudalen flaen 'Barddas', cylchgrawn y Gymdeithas Gerdd Dafod. Cyfansoddwyd yr englyn gan Tony Elliott o Benisarwaun. (Golygydd newyddion yr Eco.) Anghofiodd Tony am yr englyn ar ôl iddo ymddangos yn 'Barddas' ond tua phythefnos yn ôl clywodd gan y Parchedig Brifardd John Gwilym Jones, Bangor, fod gweddw B.T. Hopkins wedi holi pwy oedd wedi ei gyfansoddi. Ar ôl i Mr John Gwilym Jones anfon enw a chyfeiriad Tony at Mrs Hopkins,

derbyniodd yntau lythyr oddi wrthi yn gofyn am ei ganiatâd i roi'r englyn ar garreg fedd ei diweddar briod.

Yn yr englyn ceir cyfeiriad at hen gartref y bardd, Rhos Helyg, ar y Mynydd Bach, Ceredigion. Anfarwolodd B.T. Hopkins ardal ei febyd yn ei gwydd arbennig 'Rhos Helyg', cywydd sydd, yn ôl rhai beirniaid, ymhlith y goreuon yn yr iaith Gymraeg.

Dyma'r englyn:

Gwâr awenydd gwerinol; - rhoes i'w hil

'Rhos Helyg' yn waddol;
Ac i grud ei fro hudol
A hithau'n hwyr aeth yn ôl.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!**

**Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus**

**Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist**

**MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLLEN

Ffôn:

LLANBERIS 545

**Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore**

WAUNFAWR

YR URDD – Yn ddiweddar, cafodd plant yr Urdd amryw o wahanol weithgareddau. Trefnwyd Helfa Drysor ar hyd llwybrau'r pentref gan Mr John Huws. Enillwyd y wobwr gan Wayne Aeron a Huw. Yna cafwyd gyrfa chwilod yr wythnos ganlynol, wedyn sleidiau ar y Parc Cenedlaethol gan Mr Aled Taylor, sy'n warden i'r parc, a chyn yr hanner tymor cafwyd sgwrs a ffilm gan P.C. Bevan a Swyddog Cyswllt Ieuenctid.

Yn dilyn y noson goffi a drefnwyd ym mis Medi mae'r Urdd wedi cyfrannu £25 at gronfa'r Ganolfan. Diolch i bawb am bob cymorth gyda'r noson. Nos lau, Tachwedd 5, bydd yr Urdd yn trefnu noson Tân Gwylt yng nghae Bod Hyfryd am 6.00 o'r gloch ac yna cawl a chŵn poeth yn festri Capel Croesywaun.

LLONGYFARCHIADAU i Joanna Marston, Blaen-y-Nant ar gael ei derbyn ar ôl prawf, yn aelod o Fand Chwyth Gwynedd – mae Joanna yn chwarae'r oboe. Hefyd ei brawd Anthony sydd wedi ei dderbyn, ar ôl prawf eto, i Gerddorfa Ieuenctid Gwynedd – chwarae y basŵn mae Anthony. Mae Joanne Weale (ffidil), Catherine Barnes (fiola), Sian Barnes (soddgrwth) a Bridget Barnes (ffidil) eisoes yn aelodau o Gerddorfa Ieuenctid Gwynedd a llongyfarchiadau i Joanne Weale, Catherine Barnes a Sian Barnes am ennill eu lle yng Ngherddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru.

Y GANOLFAN – Mae 273 eisoes wedi ymuno â'r Clwb 300 ac mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi'r ymateb gwyb hwn i'r apêl. Caiff y tri thocyn buddugol cyntaf eu tynnu ar y 29ain o'r mis hwn. Gobeithir gnwued hyn ar ddiwedd pob mis yng nghyfarfodydd gwahanol

gymdeithasau'r pentref. Bydd y clwb yn gwneud elw o £10,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Mae'r pwyllgor adeiladu eisoes wedi cyfarfod ar y safle a gobeithir dechrau'n fuan ar y gwaith clirio a gosod sylfeini.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Hydref 1, gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu.

Croesawodd y llywydd yr aelodau i'r cyfarfod. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf a'u trafod.

Cynhelir y cinio Nadolig yng ngwesty'r Foelas, Llanrug, nos Fawrth, Tachwedd 24. Enwau'r aelodau sy'n bwriadu mynd i'r ysgrifennydd yn y cyfarfod nesaf. Mrs Catherine Jones fydd yn cynrychioli Sefydliad Waunfawr yng Nghyngor yr Hydref a gynhelir yng Ngholeg Technegol Bangor nos lau, Hydref 29.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gyda sleidiau am Barc Cenedlaethol Eryri, ac ar ei waith fel Warden yn parc gan Mr Aled Taylor, o'r Waunfawr. Diolchodd Mrs Doris Roberts iddo. Enillodd Mrs Bet Hughes y raffl a roddwyd gan Mrs Jones Evans, a Mrs Bet Hughes a roddodd y blodau ar fwrdd y llywydd.

Y cyfarfod nesaf a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Tachwedd 5, fydd y Cyfarfod Blynnyddol.

NOSON GOFFI – Cynhaliwyd Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Hydref 9 gan ferched o Sefydliad y Merched. 'Roedd yr elw i fynd i gronfa'r Muscular Dystrophy. Enillodd Mrs Maureen Griffith y raffl.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd

cyfarfod cyntaf y tymor o Ferched y Wawr yn Neuadd yr Eglwys, Medi 24. Cafwyd sgwrs ddiddorol ar 'Ferched Enwog' gan Eigra Lewis Roberts o Ddolwyddelan – y llenor, bardd a'r dramodydd, sydd â'i gwreiddiau yn y Waunfawr. Yng nghyfarfod Hydref 29, fe fydd arddangosfa o ddoniau'r Waun a gwahoddir merched y cylch yno. (30c). Llywydd y cyfarfod oedd Mrs M.V. Jones. Diolchwyd i'r siaradwr gan Irene Roberts. Y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am y lluniaeth, ac enillwyd y raffl gan Mrs M. Lloyd Jones.

YR AELWYD – Aeth tua 10 o aelodau'r Aelwyd dan arweiniad Dic Jones, ddydd Sadwrn Hydref 17, ar fenter nodedig i lanhau'r pentref, yr arian wrth gwrs yn mynd tuag at yr Aelwyd. Bydd yr Aelwyd yn cyfarfod bob nos Fawrth yn Neuadd yr Eglwys o 7.30 hyd 9.30 o'r gloch. Croesewir aelodau newydd.

CLWB CANT PLAID CYMRU – Dyma restr o enillwyr Clwb Cant y Blaidd o fis Mehefin ymlaen: Mehefin: 1. John Ellis £8, 2. Mrs Mwynwen Jones £4, 3. Mr Gwilym Hughes, £2.50

Gorffennaf: 1. W.T. Owen £8, 2. Sion Prys Jones £4, 3. Jenny Jones £2.50. Awst: 1. Irene Roberts £8, 2. Mary B. Davies £4, 3. Eurig Wyn £2.50.

Medi: 1. Michael Williams £8, 2. Marilyn Roberts £4, 3. Meirion Jones £2.50.

LLONGYFARCHIADAU i Valerie Lewis, 8 Ael y Bryn, ar ei dyweddïad â Glyn Jones o'r Groeslon.

I Kelyth Hughes, Bro Waun, ar ei ddyweddïad â Hefina Griffiths o Fangor.

I Christopher Michael Chadwick, Tan y Coed, ar ei briodas â Nina Margaret Plum o Appleton, Sir Gaer. CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mrs Roberts a Stanley, 14 Bryn Golau, ar golli priod a thad, hefyd â Misses Doris a Nancy Roberts, a Mr John Elwyn Roberts, Bro Waun, ar golli brawd.

YN YR YSBYTY – Dymunwn wellhad buan ac anfonwn ein cofion at Mr Robert Williams, Bryn Colwu; Mr William Jones, Gilfach; Tony Roberts, Llys Helen, a Mrs Gwenno Lloyd, Tŷ Capel Croesywaun.

ADREF O'R YSBYTY – Gobeithiwn fod Gwyneth Ellis, Glyn Awel, a Miss Bessie Jones, Bod Arthur, yn gwella ar ôl dod adref o'r ysbty. Hefyd Sion Prys Jones, Penrhos, ar ôl ei ddamwain.

CROESO – Pleser garw yw croesawu Rhodri a Sylvia, 15 Stâd Tŷ Hen, yn ôl i'r Waun ar ôl ffarwelio â hwy rai misoedd yn ôl. Bydd Rhodri yn dechrau swydd newydd gyda'r BBC ym Mangor ddiwedd y mis hwn.

Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Griff B. Williams yn eu cartref newydd yn Rhes Eilian.

YR URDD – Gwerthwyd Baneri'r Urdd yn y pentref yn ddiweddar, a chafwyd elw o £32.87. Mae Pwyllgor Ariannol yr Urdd yn ddiolchgar i'r Casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

LLYFRAU NEWYDD

PIGION TALWRN Y BEIRDD

Llyfr y bydd mynd mawr arno y Nadolig hwn yw **Pigion Talwrn y Beirdd** wedi eu dethol gan Gerallt Lloyd Owen. Dau gant o dudalennau yn orlawn o'r digri a'r dwys, amryw byd o'r pethau y bu gwrandawyr y rhaglen yn dotio arnynt ac yn dyheu am eu cael ar glawr. Dyma ragflas o gynnwys y llyfr.

BEDDARGRAFF PREGETHWYR LLEYG

Bregethwr lleyg digoleg, Sy'n gorwedd dan y garreg, Er bod Suliau gwag di-ri' Phregethi di ddim 'chwaneg.

(Huw Selwyn Owen)

MAM

Dihunan ei daioni, – diomedd, Diamod, digyfri; Pwy roi mor ddibrin inni Heb bennu tâl? Pwy ond hi?

(Nanconwy)

YMSON DYN YSWIRIANT

Beth ddywed y pennaeth pan glywith fod Joc, Y ci a insiwriais, wedi marw o sioc? Ond sut ro'n i i wybod nad oedd ganddo mo'r sens I beidio gwneud dŵr dros y lectric ffens?

(Cledwyn Fychan)

Bydd y rhain, a llawer mwy, ar gof a chadw am byth ar dudalennau **Pigion Talwrn y Beirdd**. Ei bris, £2.50, a bydd ar werth ddechrau Tachwedd. Cymerwch gyngor un o'r beirdd:

Nac oeda 'boss' – mae'n 'good buy'.

ATGOFION W.H.

Atgofion un o feibion mwyaf adnabyddus Môn yw'r ail lyfr yng Nghyffres y Cewri, sef cyffres newydd o hunangofiannau a gyhoeddir gan Wasg Gwynedd. Ar ôl llwyddiant ysgubol y llyfr cyntaf – hunangofiant Dafydd Iwan – mae argoelion y bydd derbynnyd yr un mor wresog i'r ail sef **W.H. ROBERTS**, y cyn-ysgolfeistr, darlledwr ac actor

sy'n byw yn Nwyran. Fe wŷr y rhai sy'n ei adnabod yn dda fod ganddo gyfoeth o atgofion difyr am Fôn ei blentyndod, ynghyd â'r ddawn i'w cyflwyno'n fyw ar bapur. Bu amryw o'i gydnabod yn ceisio'i annog i'w rhoi ar gof a chadw a daeth cyfle i wneud hynny pan ofynnodd Gwasg Gwynedd iddo ymuno â'r gyffres newydd hon.

Cyfuniad o'r hunangofiannol, yr atgofus a'r ysgrifol yw'r llyfr ac adlewyrchir yr amrywiaeth hwnnw yn nheitlau rhai o'r penodau; er enghraifft: Meddyginiaethau, Chwaraeon Plant, Cynhaeaf Gwair, Llangefni, Cymeriadau, Adrodd, India, Darlledu, Niwbwrch.

Rhagwelir y bydd mynd mawr ar y llyfr hwn; felly ni ellwch fforddio oedi cyn prynu. Bydd yn y siopau ddechrau Tachwedd a'i bris fydd £2.50.

BYCLINGS!

Bob blwyddyn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol gellir prynu'r llyfr buddugol yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith. Eleni, casgliad o ysgrifau oedd y testun, ac ym Machynlleth 'Cysgodion ar y Pared' gan John Gruffydd Jones aeth â hi.


Ond yn ôl y tri beirniad 'roedd hi'n agos iawn eleni rhyngddo ef ac ymgeisydd arall dan y ffugenw 'Gwennor'.

"Hyfrydwch pur oedd darllen gwaith Gwennor" meddai R. Tudur Jones, "mae doniolwch ym mēr ei esgryn . . . greddf artist o dynnwr coes . . . a'i arddull yn dygyfor o ynni a dyfeisgarwch." Dywed Eigra Lewis Roberts "Ni fu imi roi'r gyfrol i lawr unwaith." Ac yn ôl John Rowlands "Bu'n anodd iawn dewis rhyngddynt, ac nid awn ar fy llw fy mod yn berffaith sicr eto fod un yn well na'r llall. Ond gan mai cystadleuaeth yw hon, ac na ellir rhannu'r Fedal, bu'n rhaid dod i ryw benderfyniad."

Nid rhyfedd felly fod Gwasg Gwynedd, Caernarfon wedi mynd ati'n syth i gyhoeddi'r ysgrifau hyn hefyd, a daw'r llyfr allan ddechrau Tachwedd. Yr awdur yw Gwilym Tudur, sy'n enedigol o Chwilog yn Eifionydd, ond yn awr yn byw yn Lledrod yng Ngheredigion ac yn cadw Siop y Pethe yn Aberystwyth.

Enw'r llyfr yw *Byclings* – o deitl un o'r ysgrifau am ryfeddodau gwersyll Butlins, Pwllheli. Y pris, yn rhesymol iawn, yw £1.25.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd

Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!


Sylwch fod y teitl yn aros yr un
fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

MYNYDDOEDD Y BYD COTOPAXI

Mae'n debyg mai dyma'r llosg-fynydd neu'r folcano uchaf yn y byd sy'n parhau i echdorri; er mai anaml iawn y digwydd hynny erbyn heddiw. Mae wedi ei leoli ym mynyddoedd yr Andes, yng ngwlad Ecuador, ac y mae'n 19,350 o droedfeddi o uchel. Croniclir yr echdoriadau cyntaf mor bell yn ôl a 1532 a 1533, ond cyfnod gwaethaf y mynydd oedd rhwng 1744 a 1803.

Ym 1803, roedd chwyrnu Cotopaxi i'w giwed 500 o filltiroedd i ffwrdd, ac yn 1768, roedd yr holl goedwigoedd o amgylch wedi eu gorchuddio â lludw mân. Yn 1802 ceisiodd yr archwiliwr enwog Alexander von Humboldt ddringo'r mynydd ond methiant fu ei ymgais, a dywedodd fod y dasg bron a bod yn amhosibl. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ategodd Cotopaxi ei deimlad gan echdorri unwaith eto. Bu'n rhaid disgwyl am 70 o flynyddoedd cyn profi Humboldt yn anghywir, oherwydd yn y flwyddyn 1872 concrwyd copa Cotopaxi am y tro cyntaf gan Wilhelm Reiss ac A.M. Escobar. O fewn yr wyth

TUDALEN I'R
PLANT: HEN AC
IFANC
Gan
DYFRIN
Y DEWIN



"Chdi a dy sodlau main!"

GWLAD RYDD I GAETHWEISION

"Plentyn maeth America." Dyna'r enw a roddwyd ar Liberia am hir, oherwydd Americanwyr a fu'n bennaf gyfrifol am ei sefydlu fel gwlad rydd ar gyfer caethweision a ryddhawyd yn America.

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'roedd pobl ar ddwy ochr Cefnfor Iwerydd yn ceisio'u gorau i ddileu caethwasiaeth. Ym Mhrydain dyn o'r enw Wilberforce a fu'n bennaf gyfrifol am ei ddileu trwy ddeddf ym 1806, a chafodd caethwasiaeth ei ddileu'n gyfan gwbl o holl wledydd y Gymanwlad ym 1833. Yn America, bu'n rhaid disgwyl hyd 1862 a'r Rhyfel Cartref yno cyn i gaethwasiaeth gael ei ddileu. Ond ymhell cyn hyn, 'roedd grŵp o bobl wedi sefydlu Cymdeithas Gwladychu America, ac wedi prynu tir yng Ngorllewin Affrica ym 1822. Rhyddhawyd 88 o gaethweision o America a'u sefydlu yn Nhiriogaeth Liberia. Bu 29 ohonynt farw'n fuan ar ôl

glanio ond y 59 oedd yn weddill a fu'n gyfrifol am sefydlu gwlad newydd Liberia. Disgynyddion y grŵp gwreiddiol hwn a ffurfiai ddosbarth rheoli'r wlad, ac yn 1847 cydnabyddwyd Liberia yn wlad annibynol, a sefydlwyd ei llywodraeth ar y dull Americanaidd.

Yn anffodus, ni arhosodd y ddelwedd o "wlad rydd" yn hir iawn, ac ym 1931 bu'n rhaid sefydlu Comisiwn Rhyng-Genedlaethol i archwilio i honiadau o gaethwasiaeth yno! Bu'r adroddiad yn sioc i'r byd, oherwydd y pryd hynny, 'roedd sustem o wersylloedd caethion a llafur gorfodol di-dâl yn ddieithr. Yn dilyn Adroddiad y Comisiwn, a dileu'r sustem erchyll hon yn Liberia, aethpwyd ati'n ddiymdroi i ail-godi'r wlad yn ôl ar ei thraed. Ym 1943 etholwyd yr Arlywydd Tubman i'w swydd, a gwnaeth waith da yn cysylltu â phob pennaeth yn y wlad a'u cael i gyd-weithio er lles eu pobl.



Copa Cotopaxi: Llun wedi ei dynnu o'r awyr.

CAMPAU CYMRU

Oes unrhyw un wedi gwneud camp ar gyfer llyfr Campau'r Urdd? Anfonwch am wybodaeth.

JÔC Y MIS

C: Pam y mae pryfed yn chwarae pêl-droed mewn soser?

A: Am eu bod eisiau ennill y cwpan.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU**

**T
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

"SBEIS"

Mae'n anodd sylweddoli heddiw pa mor werthfawr oedd sbeis (perlysiâu) ar un adeg. 'Roedd rhai ohonynt yn werth eu pwysau mewn aur, ac yr oedd llond bag o bupur yn anrheg teilwng i frenin.

Ym 1522 y daeth y cargo cyntaf o sbeis i Ewrop, a hynny i ddinas Amsterdam. Yn fuan wedyn, concrwyd a hawliwyd Ynysoedd Molucca gan wlad yr Iseldiroedd ar erbyn 1605 'roedd planhigfeydd o nytmeg a clôf wedi eu plannu yno. Yn ddiweddarach, plannwyd y ddau sbeis hyn ar Ynys Mauritius gan y Ffrancwyr ac yr oeddent wedi eu cyflwyno i Zanzibar erbyn 1744. Erbyn diwedd y ganrif honno, 'roedd nerth yr Iseldiroedd yn y Dwyrain Pell yn gwanhau, ac yn 1796 daeth Ynysoedd Molucca i feddiant Prydain. O dan reolaeth Prydain, parhaodd y tyfu sbeis a lledaenodd i wledydd eraill ac ynysoedd y Dwyrain Pell.

Erbyn heddiw, mae'r fasnach mewn gwahanol fathau o sbeis yn ffurfio rhan bwysig o fewnforion ac allforion gwledydd y byd; ac y mae sbeis bellach yn cael eu tyfu mewn llawer o wledydd y byd ar wahân i'r Dwyrain pell, gan gynnwys gwledydd Affrica a De America.

Cawn fwy o hanes rhai o'r perlysiâu hyn y tro nesaf.

STORIAU'R CYFAR MAIN

gan Y Gwalch

Erbyn heddiw mae'n siŵr gen i, mae yna sothach mwy dymunol i ddenu llygod mawr, ond erstalwm, roeddau nhw yn sgut am garna meirch, ac 'roedd yr Efail Castall yn berwi efo nhw.

Roeddau nhw mor blagus, nes yr oedd Siani'r Efail a oedd yn byw wrth y gweithdy, yn mynd i'w gwely yn ei dillad, a phastwn onnan wrth ei hochr hi i'w stanio nhw yn y nos, ac 'roedd rhai wedi mynd i ofni, pe tasa rhywbath yn digwydd iddi hi gefn trymyn, na fasa yna ddim yn weddill ohoni hi erbyn y bora ond asgwrn cefn fel pennog coch.

Ond 'roedd Richiard Huws y gof yn cael gwell hwyl ar eu trin nhw. 'Roedd o wedi gwneud patant i'w dal nhw yn fyw efo rhyw hen gasgan driog, a rhyw si-so bach ar ei hochr hi, ac abwyd. Erbyn y bore fydda yna ddim i chi weld rhyw ddeuddag neu bymthag ar gefna ei gilydd yn ei gwaelod hi. Wedyn mi fydda yn berwi llong yr hen deciall haearn hwnnw o ddŵr ar dân yr efail a'i dywallt o am eu penna nhw.

Wrth gwrs, 'doedd swyddog yr amgylchadd - neu beth bynnag oeddau nhw yn ei alw fo yr adag honno - ddim yn cael digon o gyflog i brynu moto, a tasa fo wedi ei chynnig hi ar ei feic, mi 'fasa'r metlin wedi cnoi ei deiars o cyn iddo fo fod yn agos i Groeslon Tŷ Mawr.

Ac yn yr efail rhyw ddiwrnod y gwelais i Rosa Boswell am y tro cynta erioed, a hi fuo gwrthrych fy serch i am gyfnod, er bod pawb yn dweud yn yr ysgol mai Menai Llofft oedd fy nghariad i - ond sachad oeddau nhw i gyd yn gael.

'Roedd Rosa Boswell yn dwad efo'i theulu Abram Wd i Lôn Pen Caea, neu i Lôn Bach Rhyda, ddwy waith yn y flwyddyn; yn y gwanwyn ac adag Ffair y Borth. 'Roedd ganddyn nhw tua hanner dwsin o garafana ceffyla wedi eu haddurno yn lliwgar, ac yr oeddau nhw yn cario pob dim efo nhw; yn ieir, a geifr, a chwningod.

'Roeddwn i wedi cael ordors i beidio mynd ar eu cyfyl nhw beth bynnag, ac mi fydda yr hen rigwm Saesneg honno yn rhedeg drwy fy mhen i reit amal. "My mother said that I never should. Play with the gypsies in the wood." Ond fel mae hi'n digwydd ran amla, mae fflam y gannwyll yn gryfach na'r pry.

'Roedd eu harswyd nhw braidd ar drigolion y frodir, ond 'doedd raid iddyn nhw ddim bod. O'u cymharu â beth sydd o gwmpas dyn heddiw, 'roeddau nhw yn angylion. 'Roedd y

merched yn dwad rownd efo pegia dillad ac i ddeud ffortiwn y credadwy, a phan gaeodd mam Margiad Anne ddôr yr ardd yn eu gwyneba nhw, dyma ei basgiad ddillad hi yn cymyd tân.

Mi welais fy nhad yn rhoi bachiad i un neu ddau o'r dynion yn achlysurol, ac mi fyddan yn cael hen haearn ac amball i drenglan o wair. Ond 'roedd hi'n llawn cystal i rhywun gau ei lygad ar ryw rwdan neu ddwy yn diflannu o'r cae, neu geffyl yn cael ei droi i'r werglodd tros nos. Ond fyddan nhw yn gadael dim llanast ar eu hola, dim ond ôl lle tân.

Ond welach chi byth mohonyn nhw yn cyrraedd nac ymadael, ac amheuthun hynny. 'Roeddau nhw un ai yno neu doeddau nhw ddim.

Yr adeg honno roeddwn i'n darllen Lavengro, a matar bach oedd i mi gysylltu y criw efo trigolion y llyfr hwnnw: Tawno Chikno ac Ursula, Grey Moll, ac Isopel Berners. Ac weithia roeddwn i'n gweld yr hen Forrow yn dwad i lawr gallt Pen y Bryn a'i lyfr o dan ei gesail i gael gwers baffio gan Jasper Petulengro ym Moncan Eithin Cae Hob.

7 eth bynnag, rhyw ddiwrnod gwlyb a mam a nhad ddim adra, dyma fi'n mynd â'r ferlan drwyn llwyd i gael ei phedoli, a dyna lle roeddwn i yn yr efail yn hongian ar lorp y fegin fawr yn chwythu tân siapio reit wyn, a'r diwrnod hwnnw y deudodd Richiard Huws wrtha i rhywbath am fy nhad na wyddwn i ddim o'r blaen.

'Roedd o unwaith yn y gadlas, wedi gorwedd o dan drol a ffrâm wair arni hi yn pwyso tua deuddag cant, ac wedi rhoi gwadna ei draed o dan ei hechal hi a'i chodi oddiar lawr. A thra 'roedd Richiard Huws yn deud hynny, dyma rhyw hogan i mewn drwy'r rhagddor o'r glaw, a'i gwallt am ben ei dannadd, a hwnnw yn ddu fel huddug. 'Roedd yn amlwg fod y sipsiwn wedi cyrraedd yn fy ngwrthgefn i.

'Doedd hi fawr hyn na fi. Dyma hi yn mynd at y tân, a dyma ei dillad llaes hi yn dechra stemio. "Mae arna i isio pedola," medda hi wrth Richiard Huws, ond chymerodd o fawr sylw, dim ond dyrnu'r engan. Ddeudodd hitha ddim gair wedyn, ond 'roedd hi'n amlwg nad oedd hi am symud heb ei negas, a phan oedd y gwreichion yn hedag i bob man, chaeodd hi ddim o'i llygad nac arbad dim ar ei phen.

Roeddwn i'n barod i gychwyn gyda hynny, a dyma Richiard Huws yn swlffa rownd yr efail,

ac mi gafodd hyd i ddwy neu dair o hen bedola a'i rhoi nhw iddi hi. Wedyn dyma hi'n dwad ar fy ôl i fyny'r allt gan ddilorni'r farlan, a deud fod ganddi hi un well o lawar. Ond isio mynd ar ei chefn hi yr oedd hi, dyna oedd y dolur, a dyma finna yn ddigon gwirion - un gwantan ydw i wedi bod efo merched - yn cynnig sgîl iddi hi.

Mi neidiodd i fyny mewn dau funud efo'i phedola, a dal ei gafael, ac yr oedd ogla mwg prisia arni hi yn drybola, ond yr adag honno 'roedd o cystal â'r persawr gora.

'Roeddwn i wedi meddwl cael gwarad ohoni hi yn Lôn Clechydd, ond aros wnaeth hi'n solat nes yr oeddau ni adra yn y stabl, ac 'roedd hi a'i bysadd ymhob dim mewn munud ac yn holi fel Rhodd Mam, a wyddwn i ddim erbyn hynny oedd hi'n edifar gen i ddwad â hi efo mi a'i peidio.

'Doedd byw na marw wedyn na chawsa hi fynd drwy'r beudai ac i lofft y gwas, a dyma hi i'r cwt ieir, ac mi wyddwn yn iawn na fasa ddim ganddi daro wy neu ddau yn ei barclod. Ond 'roedd hi wedi gwaredu pan aeth hi i'r gegin foch a gweld yr holl sacha blawd rheiny rownd y muria, a dyma hi'n gafael mewn dyrnaid o india corn a'i sodro fo yn ei cheg.

'Roedd hi'n dal i ddymchwal scrympia Gŵyl Grôg y tu allan, a dŵr yn chwdu o'r fargod, fel sicion golchi, a 'doedd gen i fawr o awydd llyffanta yn y fan honno, ac mi 'roeddwn i awydd bwyd.

Tra'r oedd hi'n bysnesu efo'r blawdia, mi gês gyfla i gael gafael ar y gorriad dan y lechan a ffwrdd â ni i'r tŷ, ac 'roedd hi wedi cael modd i fyw. 'Roedd hi'n bodio'r cnwyllbrenni a llestri'r dresal, ac yn y diwadd mi daliais hi yn sefyll o flaen y cloc mawr yn y gegin ffrynt, a'i phen hi'n mynd i ganlyn ei feindil o, ac am wn i, tasa hi'n cael hanner cyfla, mi fasa yn ei daro fo ar ei chefn a mynd â fo i'r hen dylwth yn Lôn Bach Rhyda.

Ond y peth gora i mi erbyn hyn, roeddwn i'n gweld, oedd ceisio cael gwarad â hi. Tasa

mam a nhad yn dwad adra a'i gweld hi yn y fan honno yn bodio eu petha nhw, mi fasan yn gweld y Werddon. Dyma fi'n dal gwydriad o lasdwr o'i blaen hi, fel pe taswn i yn hudo mochyn at ei gafn, ac mi cefais hi i'r tŷ llaeth. Ond mi welodd y cig moch yn y fan honno yn crogi uwch ei phen hi, a dyma ei meddwl hi'n troi at fwyd, a'r adag honno y deallais ei bod hi'n chwanog i ddraenogod - yr hotchwichwi, chwalad hitha. Ond gan nad oedd ganddon ni ddim byd felly wedi ei halltu, mi fuo raid iddi fodloni ar dafall, a thalbo o gaws, ac mi aeth â nhw at y tân yn y gegin fyw, fel tasa hi'n talu'r rhent am y lle.

Ond oes ramantus oedd hi. "Sut mae dy lygad ti mor las a dy wallt ti mor felyn?" meddai hi wrtha i. "Wn i ddim," medda fi. "Sut mae dy rai di mor ddu?"

Dyma hi'n rhoi pwniad i'r tân efo'r procar, a dyma hi'n deud ei bod hi newydd gladdu ei modryb tu allan i'r 'Mwythig, ac wedyn, eu bod nhw wedi llosgi ei charafan hi a'i holl eiddo hi i gyd, a phan ddeudais i fod hynny yn biti ac yn wastraff, dyma hi'n cael y gwyllt a chodi ar ei thraed, a deud nad oedd o ddim o fy musnas i, ei bod hi am fynd, a fasa hi byth yn dwad yn ei hôl wedyn. A wyddwn i ddim erbyn hynny, oeddwn i isio iddi fynd ai peidio.

Ond i ffwrdd yr aeth hi, ac fel mae petha yn mynnu bod, yn syth i wynab mam a nhad yn dwad rownd tro llyn corddi yn yr hen Forus. Pan ddaethon nhw i'r tŷ, dyma mam yn gofyn, "Beth oedd honna isio?"

"Begio," medda fi.

"Rhaid i ti beidio swcro rheina, neu fydd gynnwn ni ddim ar bost nac ar barad."

Ymhen rhyw awr, pan oeddwn ni'n cael te, dyma gnoc ar y drws, a phwy oedd yno ond Rosa Boswell wedi dwad i nôl ei phedola. 'Roedd hi wedi eu gadael nhw ar y faine botia yn y tŷ llaeth. A phan gafodd mam hyd iddyn nhw mi gês i andros o job egluro sut yr oeddau nhw wedi mynd i'r fan honno, yn y lle cynta!

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a FFRDD PENCHWINTAN, BANGOR
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

DEINIOLEN

MRS NANCY ROWLANDS – Ar ran pentrefwyr Deiniolen, ac ar ran ei chydweithwyr ar yr Eco, hoffwn ddymuno adferiad llwyr a buan i Mrs Nancy Rowlands, ein gohebydd yn Neiniolen. Hoffwn ddiolch yr un pryd i deulu Mrs Rowlands am eu cymorth aruthrol efo'r gwaith o baratoi colofn Deiniolen ar gyfer y rhifyn hwn. Diolch yn fawr.

– Tony Elliott (Gol.)

DIOLCH – Dymuna Mr Len Jones, Fanwylen, Penisarwaun, ddiolch o galon, yn arbennig i Mrs Eirian Jones; Mrs Carys Thomas a Mrs Lilian Jones am eu cefnogaeth i'r bechgyn yn y Clwb Codi Pwysau, ac am eu gwaith i helpu codi arian i'r clwb. Diolch hefyd i bawb arall a fu o help.

Dymuna Eileen, Pat, Edgar, a Cath, 37 Rhydfadog ddatgan eu diolch i'r teulu, y llun cyfeillion, Mr a Mrs Myfyr Lewis a'r cymdogaion oll am eu caredigrwydd yn eu profedigaeth o golli eu mam. Hefyd i'r Parch Ifor Ll. Williams, swyddogion eglwys Libanus (B), Mair Rees Jones a theulu'r tŷ capel am eu cyfraniadau arbennig. Diolch o galon hefyd i Miss Priscie Roberts, Glanrhydfadog gynt, am ei theyrnged bersonol yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.

Y SEINDORF – Dyddiad i'w gofio. Cyngerdd gan y Seindorf gyda Chôr y Traeth yn Theatr Gwynedd ym mis Rhagfyr. Yr elw at yr achos.

ENILLWYR CLWB 200 Y SEINDORF – mis Hydref.

£25: 193: Kathleen Rowlands, 39 Pennant, Llangefni.

£15 – 94: Elfrys Jones, Minafon, Clwt-y-bont.

£5 – 198: Katie Lewis, 7 Maes Gwylfa, Deiniolen.



PWY YW'R MILWYR? – Diolch i Mr William Orwig Williams, Tŷ Capel Disgwylfa, am y llun o'i daid (yn y canol) gyda dau gyfaill. Tynnwyd y llun adeg y Rhyfel Cyntaf. A oes rhywun yn gwybod pwy yw'r ddau arall, ac ymhle y tynnwyd y llun?

PLAID CYMRU – Cafwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn Nhan-y-Caerau nos Fawrth, Medi 29, 1981. Trafodwyd y cynigion i'r gynhadledd flynyddol sydd i'w chynnal yng Nghaerfyrddin. Cafwyd adroddiad fod y casglu aelodaeth yn dod ymlaen yn foddhaol. Enillwyr Clwb Cant mis Medi oedd: £12 – rhif 95 – John Clifford Jones, Caffi Cei, Caernarfon. £8 – rhif 142 – Mrs Myfanwy Jones, 4 Pentre Helen.

NOSON GOFFI – Nos Wener, Hydref 16 cafwyd Noson Goffi lewyrchus iawn yn Ysgol Gwaun Gynfi, er budd yr anabl, dan nawdd Sefydliad y Merched, a Merched y Wawr. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu rhoddion ariannol a'r nwyddau a dderbyniasant. Hefyd am y gefnogaeth dda ar y noson. Diolch am eu haelioni arferol i Mr a Mrs R.M. Thomas, Rhydaŷ; i Mrs Eirwen Roberts am y trefniadau gwirfoddol yn y gegin; i Mr W.J. Eames, am ei rwyddineb gyda thefnïadau'r noson a'r modd i Mr Eifion Williams, y gofalwr.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn ddiweddar cafodd aelodau o'r Sefydliad noson ddifyr a hwyllog yn Theatr Gwynedd yn gweld y perfformiad o Pont Robat gan gwmni Theatr Cymru, nos Lun, Hydref 5. Cafwyd noson ddiddorol yn gwneud addurniadau Nadolig gyda Mrs Gwen Hughes, Rhiwen.



PRIODAS – Miss Mair Parry Jones, 9 Ffordd Bryncelyn, Talysarn a Mr Ieuan Wyn Davies, Pen-y-Bont, Deiniolen a briodwyd yng Nghapel Glanrhyd, Llanwnda yn ddiweddar (Medi 19). Dymuna Mair a Ieuan ddiolch o galon am yr holl anrhegion gwerthfawr. Maent wedi gwneud eu cartref yn Llanrug.

YR URDD – Gwerthwyd baneri'r Urdd o amgylch y pentref yn ddiweddar. Cafwyd elw o £26.23 ac mae pwyllgor ariannol yr Urdd yn ddiolchgar iawn i'r casglyddion am eu gwaith, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

CLWB ELIDIR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Clinic, ddydd Mawrth, Hydref 13. Yn absenoldeb anorod y llywydd, Mrs C. Marren, arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig. Y wraig wadd oedd Miss Gaynor Bassett BSc, Llanllechid Bethesda. Dangosodd trwy gyfrwng ffilm a sgwrs, ychydig o hanes gwlad Israel. Talwyd diolch i Miss Bassett gan Mrs Jane Jones, 3 Rhes Fawr, a Miss Kathleen Jones, Prenteg. Rhoddwyd y te gan y chwirydd canlynol; Mrs Irene Davies, 63 Pentre Helen, Mrs Enid Williams, 3 Tai Faenol, Mrs Olwen Jones, Lleiniau a Mrs Gaynor Lewis, 7 Tai Marian. Enillwyd y raffl gan Mrs Katie Jones, 7 Tai Cyfni. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Enid Williams. Etholwyd Mrs Jane Jones ar Bwyllgor y Ganolfan. Anfonwyd cofion hefyd at Mrs E. Williams, 3 Bwthyn, sydd yn sâl.

Cynhelir Noson Goffi yn y clinic dan nawdd Clwb Elidir nos Wener, Tachwedd 13. Daw'r manylion eto.

Ddydd Sul, Hydref 4ydd, cynhaliwyd oedfaon undebol yng nghapel Disgwylfa dan nawdd Cangen Deiniolen a'r Cylch Cymdeithas y Beibla.

Llywyddwyd cyfarfod y prawn yn ei ffordd ddiroddres arferol gan Miss Jean Parc Jones, Ebenezer. Cyflwynwyd eitemau i'r cyfarfod gan Ysgolion Sul, Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun. Mae cyfarfod y prawn wedi gwneud ei le yn ein plith ers blynyddoedd gyda chyfraniadau y naill flwyddyn yn rhagori ar y flwyddyn gynt. Canmoliaeth uchel glywyd eleni eto i'r canu a'r adrodd a fwynhawyd gan gynulleidfa luosog.

Arbrawf sydd debygol o ddod yn rhan sefydlog o'n calendar eglwysig hefyd oedd y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn yr hwyr dan arweiniad Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Bu'r arbrawf yn llwyddiant mawr a diolchwyd yn gynnes i'r arweinydd am lansio'r Gymanfa gyda'r fath arddeliad. Gwerthfawrogwyd sylwadaeth praff Miss Roberts ar y cyfansoddwyr a'r emynwyr oeddynt wedi bod yn dal cysylltiad â'r ardal. Bydd y canu brwd yn sicr o fod yn symbyliad i'r pwyllgor lleol i drefnu Cymanfa arall ym 1982. Y cyfeilyddion oedd Mrs A. Rees Owen a Mr H. Emyr Pritchard, Disgwylfa.



Diolch i Mrs Nellie Hughes, Erw Fair, Deiniolen am y llun uchod. Deallwn fod Mrs Hughes yn un o'r plant yn y llun. Ydych chi'n adnabod rhywun arall? Beth oedd y digwyddiad? Pa flwyddyn? Anfonwch atom os gwelwch yn dda.

GWERTHU HYRDDOD

Os am werthu hyrddod cymerwch gyngor gen i,
Daliwch chi bwyllgor yn eich beudy, neu'r tŷ;
Testun y pwyllgor yw diwrnod y sêl,
I werthu'r maharan sydd efo'r mwya' o apêl;
Ei redeg i fyny fydd testun y cais,
Gan nodio eich pennau neu godi eich llais;
Bydd y pris wedi ei drefnu rhyw wythnos ynghynt,
Gan ei ddechrau rhan amlaf tua deugain punt;
Wedi chwalo mae'r criw, a phawb ar wahân,
Fel gwynt diwrnod cneifio, yn chwythu'r gwlân mân.
Rhaf yn y glorian, a lleill ar y stand,
A'r gwerthwr yn dweud ei fod o'n un crand;
Wedi i'r maharan sticio i un o'r 'hen griw',
Mae'n amser i chwilio i'r diniwed fod wrth y llyw,
A hwnnw aeth adref, wedi ei blesio yn hael,
Ar ôl cael ei bluo gan y criw gwael.
Ym mhob gardd dynoliaeth, mae'n rhaid cael chwyn,
"Ond diolch o galon, na 'dydan ni ddim fel hyn;"
Mae'n well gennym ni, fethu gwerthu'r un hwrdd,
Na bod yn destun siarad o amgylch y bwrdd;
Mae'n well gennym ni ei werthu yn onest,
Na'i redeg i fyny a gwneud y fath lanast'.

Dafydd Morris
Rhianfa, Deiniolen



Diolch i Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi House, Deiniolen am y llun o hogia'r 'Penrhydd Rowler Lower Garret', chwarel Dinorwig, tua'r flwyddyn 1927-28. Yn y llun mae'r diweddar Mr Ivor Jones, Ty'n y Fawnog, Mr Benjamin Thomas, Llanberis, Mr Thomas Rees Edwards, Dinorwig, Mr William Gadlys Williams, Cynfi House, Deiniolen, Mr Griffith Thomas Jones, Deiniolen.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .




**Gwesty'r
Foelas**

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

CROESAIR TACHWEDD



AR DRAWS

1. Ewin aderyn (7)
5. Lle i goginio (5)
8. Llesmair (5)
9. Aderyn (7)
10. Gofid Tina yn troi'n ddieter (9)
12. Llanarmon-yn- (3)
13. Teithio ar draws (6)
14. Hedfan (6)
17. Oed cyn heddiw (3)
18. Rhown foliant (9)
20. Pethau mewn rhestr (7)
21. Dewi'n ffurfio'r gwahaniaeth (5)
23. Cosb ariannol (5)
24. Carolau'r gwŷr doeth?

I LAWR

1. Heb fod ar eich ennill (5)
2. Ddim yma (3)
3. "Y gwyllt ... bersawr
Yr hen lesmeiriol baent " (7)
(Clychau'r Gog - RWP)
4. Credu (6)
5. Celfyddyd (5)
6. Llyfr defnyddiol ar gyfer gwneud
croesair! (9)
7. Gŵyl (7)
11. Un sy'n gwledda (9)
13. Cytuno (7)
16. Teithio mewn cerbyd (6)
18. Y rhan sy'n perthyn i Walia (5)
19. Dau na yn gwneud sŵn (5)
20. Ei liw sy'n ffurfio'r dyn! (3)

Atebion Croesair Mis Hydref

AR DRAWS - 1. Dosbarth, 8. Adfer, 9. Cwt, 10. Oes, 11. Dydd, 13. Rhwd, 16. Llesmeiriol, 17. Nôl, 18. Oed, 23. Hir, 24. Dôl, 25. Ymliid, 26. Brawychu.
I LAWR - 2. Swta, 3. Amod, 4. Thus, 5. Tarth, 6. Yfed, 7. Traddodiadol, 9. Cynrychiolydd, 12. Gwella, 13. Rhimyn, 14. Deial, 15. Oriog, 19. Delw, 20. Pwdu, 21. Aria, 22. Adwy, 23. Hwb.

Enillydd: Gwen Jones, Hafod, Ffordd Lydan, Cyffordd Llandudno.

Cyfrif y llythrennau canlynol fel UN llythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

Anfonwch eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwy**



TACHWEDD

2, Llun.

DEINIOLEN - Ffilm gan y Parch Trefor Lewis ar hanes Mr George Thomas AS yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00. Y noson dan nawdd Sefydliad y Merched. Croeso i Bawb.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

4, Mercher.

LLANRUG - Y Cyngor Eglwysi - Seiat dan arweiniad Mr Selwyn Williams a Mr Hefin Jones yng Nghapel Tan-y-coed. Mater: Y Cristion ac Arfau Niwcliar.

5, Iau.

BRYNREFAIL - Coelcerth yn y Cae Chwarae.

WAUNFAWR - Noson Tân Gwyllt gan yr Urdd yng nghae Bod Hyfryd am 6 o'r gloch.

WAUNFAWR - Cyfarfod Blyneddol Sefydliad y Merched.

LLANRUG - Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

6, Gwener.

YR ARDAL - Clwb Eryri

7 Sadwrn.

LLANRUG - Eisteddfod

9, Llun.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

10, Mawrth.

LLANRUG - Merched y Wawr

11, Mercher.

CARTREF NEWYDD I'R ARCHIFYD

Bydd Archifyd Caernarfon yn symud i adeilad newydd pwrpasol ar Ddoc Buddug, Caernarfon, yn ystod mis Tachwedd, a disgwylir y bydd cyfleusterau ar gyfer ymchwilwyr yn rhagori'n sylweddol ar y rhai presennol. Yn anffodus, oherwydd natur yr adeiladau presennol a maint y gwaith a olygir wrth symud, bydd rhaid cau'r Archifyd am gyfnod hyd at dri mis, yn dechrau 2il o Dachwedd. Hefyd cyfyngir ar allu'r staff i ateb ymholiadau trwy lythyr neu ar y ffôn yn ystod y misoedd Tachwedd 1981 - Chwefror 1982. Gellir cael manylion am yr union ddyddiad pryd y bydd yr Archifyd'n ail-agor, trwy ffonio Caernarfon 4121 yn nes at yr amser.

Ni fydd y symud yn effeithio ar yr Archifdai Rhanbarthol yn Nolgellau a Llangefni.

BETHEL - Merched y Wawr yn 'Codi Cwestiwn' gyda Chlwb Bro Bethel.

12, Iau.

LLANRUG - Clwb Blodau'r Grug

WAUNFAWR - Clwb y Mamau

13, Gwener.

DEINIOLEN - Noson Goffi dan nawdd

Clwb Elidir yn y Clinic

LLANBERIS - Te yr Henoed

14, Sadwrn

BRYNREFAIL - Gwibdaith Clwb y Mamau i Gaer

16 Llun.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

20, Iau.

LLANRUG - Noson Goffi a Byrddau Gwerthu gan Gymdeithas

Chwiorydd Capel Pontrhythallt

CWM-Y-GLO - Noson Lawen gan Glwb y Graig

LLANBERIS - Arwerthiant gan Glwb yr Henoed

BETHEL - Plaid Cymru - 'Hwyl a Chân' yng nghwmni Gari Williams a Lleisiau'r Gweunydd yn Neuadd Bethel am 7.00

23, Llun.

DEINIOLEN - Y Gymdeithas Lenyddol

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

24, Mawrth.

WAUNFAWR - Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r

Foelas, Llanrug

26, Iau.

LLANBERIS - Sefydliad y Merched

WAUNFAWR - Merched y Wawr

27, Gwener.

LLANBERIS - Te yr Henoed

28, Sadwrn.

PENISARWAUN - Gwibdaith i Gaer

DYDDIADAU I'W COFIO

Rhagfyr 5 - Eisteddfod Bethel

Rhagfyr 3 - Ffair Nadolig Cymdeithas

Chwiorydd Capel Mawr, Llanrug

Chwefror 5, 1982 - Ffug Eisteddfod

dan nawdd Eco'r Wyddfa yn Neuadd ysgol Brynrefail.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:

PENLLYN 285
neu PADARN 327

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



CHWARAEON

AR I FYNY!

Dau frawd o'r enw Montgolfier a fu'n gyfrifol am ddatblygu'r balwn i gario pobl, a hynny mor bell yn ôl â 1783. Cododd y balwn gyntaf i'r awyr yn cario'r ddau frawd yn Strasbourg yn 1784, ac o'r cyfnod hwnnw hyd heddiw defnyddiwyd balwn i lawer o wahanol bethau, mewn cyfnod o ryfel a heddwch. Erbyn heddiw fe'i defnyddir i gario mesuryddion yn uchel i'r awyr i geisio darogan y tywydd. Mae rhai yn honni mai rhai o'r balwnau hyn sy'n gyfrifol am i lawer o bobl gredu iddynt weld soseri awyr.

Mae balwnau bellach yn cael eu defnyddio i hamddena hefyd, ac y mae'n dod yn boblogaidd iawn mewn llawer rhan o'r wlad. Cynhelir rasmus balwnau a chystadlaethau i weld pwy all lanio o fewn darn arbennig o dir.

Arferid llenwi'r balwn â nwy hydrogen, ond bellach, mae'n llawer mwy diogel, oherwydd mai aer poeth a ddefnyddir. Yn ddiweddar, datblygwyd balwn a all gael ei rheoli yn weddol ddi-drafferth gan un person yn hytrach na'r dau neu dri a welir fel arfer yn y fasedg anferth o dan y balwn. Er hynny, mae cost y balwn ei hun yn rhoi'r pleser hwn y

tu hwnt i gyrraedd poced llawer un. Efallai na welwn ni lawer o'r balwnau hyn yn yr ardal hon, oherwydd mae'r mynyddoedd a'r gwyntoedd cryf yn achosi trafferthion (nid yw balwn yn cael hawl i godi os yw cryfder y gwynt yn uwch na 8 knot). Ond pwy a wŷr? Digon posibl y gwelir balwn yn esgyn i gopa'r Wyddfa o fewn y ddwy flynedd nesaf – a hynny mewn pryd i ddathlu dau canmlwyddiant balwn gyntaf y brodyr Montgolfier.



Llenwi'r balwn ag aer poeth cyn cychwyn.



Fel y mae'r balwn yn llenwi mae'n rhaid cael cymorth i gadw'r amlen rhag ysgwyd o gwmpas. Fel arfer bydd digon o griw o gwmpas i roi help llaw.

BAS(S) NEWYDD I'R HOGIA?



Gwybodaeth os gwelwch yn dda ynglŷn ag unrhyw gamp gan unigolyn neu dîm o'r fro.

Beth sy'n digwydd yma? – rhifyn Hydref

Roedd y tri llun yn dangos un o'r rasmus rhwyfo a gynhaliwyd ar Lyn Padarn yn ystod Chwaraeon y Gymanwlad 1958. Doedd neb wedi anfon yr atebion i mi. Tybed a oes rhywun ag atgofion am yr haf hwnnw?

Na, nid bass ond eog ugain pwys a ddaliwyd ar lein wythbws gan Arwel Jones ar afon Teifi yn ddiweddar. Cymerodd awr a chwarter i'w dynnu i'r lan.



Print yn dangos y balwn cyntaf yn esgyn i'r awyr yn cario'r brodyr Mongolfier yn Strasbourg 1784.

PÊL-DROED MIS Y TRI PHEGWN

Mis anobeithiol i Fethel; mis o beidio â cholli yn hanes Llanrug, a mis o ennill popeth yn hanes Llanberis. Dyna dri phegwn y mis yn hanes tri thîm pêl-droed y fro. Dyma fel y mae tabl y Gynghrair yn ymddangos erbyn hyn, gyda Llanberis a Llanrug yn ail a phedwerydd, a Bethel yn olaf ond un.

	Ch	E	Cyf	Coll	O Blaid	Yn erb.	pwyt.
Pwllheli	11	9	1	1	40	1	19
Ll'beris	10	9	0	1	32	12	18
Felinheli	9	8	1	0	28	10	17
Llanrug	11	6	2	3	33	21	14
Bethel	9	1	1	7	13	38	3
B'esda	3	1	0	2	7	11	2

BETHEL

Mis digalon iawn i dîm a chefnogwyr Bethel, a'r amddiffynfa yn gadael pum gôl heibio ym mhob un o'u tair gêm. Colli i ffwrdd ar y Traeth ym Mhorthmadog o 5 gôl i 1; colli gartref i Harlech o 5 gôl i 2, a cholli i Lanberis o 5 gôl i ddim ar gae Llanrug. Amharwyd ar y gêm hon oherwydd i ddau o chwaraewyr gael eu hanfon o'r cae – Richard Roberts o Fethel a Selwyn Allsup o Lanberis.

LLANRUG

Bu'r mis hwn yn well yn hanes Llanrug oherwydd iddynt beidio â cholli. Chwaraewyd dwy gêm gyfartal ac ennill y ddwy arall. Dechrau'r mis ar nodyn gobeithiol a churo Nantlle o 4 gôl i 1, ond yna daeth dwy gêm gyfartal oddi cartref: rhannu chwe gôl yn Nefyn ac yna rhannu pedair gôl yn Hiracl, a'r rheini i gyd yn cael eu sgorio yn neng munud olaf y gêm. Sgoriwyd dwy gôl Llanrug gan Hefin Pritchard, ac yr oedd yr ail ohonynt yn un o'r goreuon a welwyd ar gae Hiracl. Y Sadwrn diwethaf, chwaraeai Llanrug ym Methesda, a daethant adref o'r mwd a'r llaid yn fuddugoliaethus o 5 gôl i 3, gyda Hefin Pritchard a John Williams yn sgorio dwy gôl yr un ac Einion Holland yn sgorio y llall.

LLANBERIS

Mis bendigedig arall yn y gynghrair i Lanberis, gan guro'r tair gêm. Ddechrau'r mis curo Penrhyn o 3 gôl i 1, yna curo Bethel o 5 gôl i ddim a'r Sadwrn diwethaf, curo Porthmadog o 3 gôl i 2. Ganol y mis bu'n rhaid iddynt deithio i'r Fflint i

chwarae rownd gyntaf Cwpan Iau Gogledd Cymru, a churo oedd eu hanes yno hefyd o 2 gôl i ddim. Diddorol yw sylwi fod eu blaenwr newydd W. Giles wedi sgorio ym mhob un o'r pedair gêm, ond fod y cefnwyr yn barod i helpu hefyd, gyda golïau gan Geraint Rowlands, Alan Parry a Iolo Evans.

Yn y gynghrair ieuentid mae Llanberis yn mynd o nerth i nerth gan sgorio 24 gôl yn eu tair gêm ddiwethaf, ac lan Pritchard yn sgorio naw ohonynt ei hun. Curo tîm Nantlle ddwywaith o 5 gôl i ddim ac o 8 gôl i 1, a maeddu Nefyn o 11 gôl i 1. Mae hyn yn argoeli'n dda iddynt yng Nghwpan Ieuentid Cymru, oherwydd yn yr ail rownd, byddant yn chwarae'n erbyn Nefyn ac felly fe ddylai'r tîm fynd trwodd yn rhwydd i'r drydedd rownd.

Yr wythnos ddiwethaf cafwyd gwybodaeth ynglŷn â rownd 2 Cwpan Iau Gogledd Cymru a Chwpanau'r Gynghrair. Dyma'r sefyllfa:

Cwpan Iau

Dyserth v LLANBERIS
LLANRUG v Llangeftni
Shotton v BETHEL

Cwpan W. Evans
LLANRUG v LLANBERIS
BETHEL v Pwllheli

Cwpan Alves
LLANRUG v LLANBERIS
Bethesda v BETHEL

Cwpan Moorings
BETHEL v Mt. Rangers
LLANBERIS v Porthmadog
Gêm rydd : LLANRUG